YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
40/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/07/2017

# Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

## Adroddiad 1: Theori Newid

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78859-162-1

Gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau
Adroddiad 1 Theori Newid

Endaf Griffiths, Wavehill

Mair Bell, Wavehill

David Parker

Andy Parkinson

wavehill
social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Thurston, Dirprwy Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol

Gwasanaethau Gwybodaeth ad Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5324

E-bost: richard.thurston@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


Rhestr tablau....2
Rhestr ffigyrau....2
Geirfa ....3
1. Crynodeb....4
2. Cyflwyniad....10
3. Theori Newid....13
4. Y Rhesymeg dros y Rhaglen....33
5. Dyluniad y Rhaglen a'i Gweithredu....45
6. Cwestiynau Gwerthuso Allweddol....64
7. Casgliad a Chamau Nesaf....67
Atodiad 1: Amcanion y Gwerthusiad....70
Atodiad 2: Cyfeiriadau Adolygu Llenyddiaeth a Darllen Pellach....71
Darllen Ychwanegol....74

**Rhestr tablau**

Tabl 3.1: Dangosyddion newid mewn DYSGWYR ..... 26
Tabl 3.2: Dangosyddion newid mewn ATHRAWON ..... 28
Tabl 3.3: Dangosyddion newid mewn YSGOLION ..... 30
Tabl 3.4: Dangosyddion newid mewn ARTISTIAID A SEFYDLIADAU CELF ..... 32
Tabl 5.1: Cyfanswm Cost y Cynllun (Mai 2014 - Mehefin 2020) ..... 46
Tabl 5.2: Nifer a ragwelir o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ..... 47
Tabl 5.3: Cost Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Mai 2014 - Mehefin 2020) ..... 50
Tabl 5.4: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 yn ôl Rhanbarth a Math ..... 52
Tabl 5.5: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 yn ôl iaith yr addysgu ..... 52
Tabl 5.6: Cost Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Mai 2014 - Mehefin 2020) 57
Tabl 5.7: Dangosyddion gweithredu Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan ..... 62

**Rhestr ffigyrau**

Ffigwr 3.1: Theori Newid ar gyfer y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ..... 20
Ffigwr 3.2: Theori Newid ar gyfer Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan ..... 22
Ffigwr 3.3: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer DYSGWYR ..... 24
Ffigwr 3.4: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer ATHRAWON ..... 27
Ffigwr 3.5: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer YSGOLION ..... 29
Ffigwr 3.6: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer ARTISTIAID A SEFYDLIADAU CELF ..... 31
Ffigwr 5.1: Strwythur y Tîm Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ..... 46

**Geirfa**

| **Acronym/gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ATLAC | Y Celfyddydau fel Dull ar gyfer Dysgu ar draws y Cwricwlwm / *Arts as a Tool for Learning Across the Curriculum* (yr Alban) |
| ALLau | Awdurdodau Lleol |
| CAPE | Rhaglen y Celfyddydau mewn Addysg Chicago / *Chicago Arts Programme in Education* |
| CARh | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| CCE | Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg/ *Creativity, Culture and Education* (sefydliad rhyngwladol sy'n ymroddedig i ddatgloi creadigrwydd plant a phobl ifanc mewn addysg ffurfiol a thu hwnt iddo). |
| CciSS | Cydlynwyr Diwylliannol Ysgolion yr Alban / *Cultural Coordinators in Scottish Schools* (yr Alban) |
| CDY | Cynllun Datblygu Ysgol |
| CGY | Cynllun Gwella Ysgol |
| CSC | Consortiwm Addysg Canolbarth y De |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| EAS | Consortiwm Addysg De-ddwyrain Cymru |
| ERW | Consortiwm Addysg De-orllewin a Chanolbarth Cymru |
| GwE | Consortiwm Addysg Gogledd Cymru |
| HCA | Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon |
| NFER | Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg / *National Foundation for Educational Research* |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd / *Organisation for Economic Cooperation and Development* |
| PC | Partneriaethau Creadigol / *Creative Partnerships* (Lloegr) |
| RSA | Y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach / *Royal Society for the encouragement of Arts, Manufactures and Commerce* |
| YCA | Ysgolion Creadigol Arweiniol / *Lead Creative Schools* |

# 1. Crynodeb

1.1 Lansiwyd y rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* ym mis Mawrth 2015 ac mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen ei rheoli gan dîm o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogi. Fe'i cefnogir gan fuddsoddiadau cyfartal gan Loteri'r Celfyddydau a chyllid yr Adran Addysg a Sgiliau, sef cyfanswm o tua £20m dros bum mlynedd.

1.2 Mae'r fenter yn cynnwys dau faes gweithgarwch:

- mae Maes 1, sef y cynllun *Ysgolion Creadigol Arweiniol*, yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd. Mae'n ymyriad dwys sy'n cynnwys athrawon, 'Asiantiaid Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol' yn cydweithio i gynnig dull creadigol o ddysgu. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cefnogi tua thraean o ysgolion Cymru dros oes 5 mlynedd y rhaglen

- mae Maes 2, sef *Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan*, yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gynyddu a gwella'r cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celf / diwylliannol / treftadaeth i gydweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys Porth Dysgu Creadigol a'r Celfyddydau ar-lein, Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg, Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol a chronfa 'Profi'r Celfyddydau'.

1.3 Dyma adroddiad cyntaf gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Yn fras, ei ddiben yw archwilio proses y rhaglen, ei heffaith a'i gwerth am arian. Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lunio yng nghamau cynnar y rhaglen, yn astudio'r newidiadau (neu ganlyniadau) y rhagwelir y bydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn esgor arnynt a sut y gallwn fesur y newidiadau hynny. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried y Theori Newid[1] sy'n sail i'r rhaglen (Pennod 2), y rhesymeg dros yr ymyriad (Pennod 3) a thrwy ddisgrifio cynllun y rhaglen a'r strwythur gweithredu (Pennod 4). Yn y bôn, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r sylfaen y bydd camau dilynol y gwerthusiad yn adeiladu arnynt.

[1] Gellir disgrifio Theori Newid fel map ffordd a hwnnw'n amlinellu'r pethau (canlyniadau canolradd) sy'n gorfod digwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol.

**Prif Ganfyddiadau: Theori Newid**


1.4 Dyma gamau allweddol y Theori Newid ar gyfer Maes 1, sef y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol:

- mae’r disgyblion (dysgwyr) sy’n cymryd rhan yn y dosbarthiadau / gweithgareddau yn elwa’n uniongyrchol o’r profiad hwnnw
- mae’r athrawon yn gweithio gyda’r Asiantiaid ac Ymarferwyr Creadigol i gynllunio ac yna i gyflwyno sesiynau, gan elwa o’r profiad hwnnw ac yn sylwi ar y budd i’r dysgwyr
- mae athrawon eraill yn yr ysgol yn sylwi ar y budd i’r disgyblion ac, o ganlyniad, yn mabwysiadu’r un dull gweithio neu un tebyg
- mae uwch reolwyr yr ysgol yn sylwi ar fanteision y dull ac, o ganlyniad, yn cynyddu’r pwyslais ar ddysgu trwy greadigrwydd o fewn yr ysgol
- mae gwneuthurwyr polisi yn sylwi ar fanteision y dull ac, o ganlyniad, yn cynyddu’r pwyslais, mewn polisïau, ar ddysgu drwy greadigrwydd.

1.5 Yn y bôn, mae’r uchod yn ddull ‘prawf cysyniad’ (*proof of concept*); defnyddir yr ymyriad i ddangos bod disgyblion yn elwa o’r dull, ac mae’r canlyniadau eraill yn dilyn ymlaen o’r fan honno. Y ddamcaniaeth yw bod y diffyg ‘prawf’ fod dulliau creadigol wir yn gweithio yn cyfyngu ar (neu hyd yn oed yn rhwystro) defnyddio dulliau o’r fath mewn ysgolion yng Nghymru.

1.6 Mae Maes 2 (Cynnig Addysg a’r Celfyddydau Cymru Gyfan) yn ymyriad llawer ehangach ac yn llai penodol; mae’r ffocws ar greu ‘cyfleoedd’, o’i gymharu â thasg y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i gael canlyniad terfynol penodol iawn, sef gwella cyrhaeddiad disgyblion. Un elfen hanfodol y Theori Newid ar gyfer Maes 2 yw bod gan athrawon, ac ysgolion yn gyffredinol, o leiaf ddealltwriaeth sylfaenol o greadigrwydd fel arf dysgu, a hynny’n rhagofyniad iddynt gymryd rhan yn effeithiol. Mae yna hefyd ddibyniaeth, yn y theori, ar yr athrawon a’r ysgolion yn gweithredu’r hyn y maent wedi’i ddysgu o ganlyniad i’w rhan yn yr ymyriad.

1.7 Nodwyd pump o grwpiau buddiolwyr posibl, ac mae’r adroddiad hwn yn ystyried sut y bydd pob un o’r grwpiau hyn (mewn theori) yn newid o ganlyniad i’r rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau. Nid ydym wedi cynnwys ‘gwneuthurwyr polisi’ yma; nid hwy fydd prif ffocws y gwerthusiad y tro hwn.




1.8 Bydd y gwerthusiad hwn yn arwain at gyfres o ddangosyddion newid sy’n gysylltiedig â phob un o’r ‘grwpiau buddiolwyr’. Yn bwysig, mae’r rhain yn cynnwys dangosyddion ar gyfer nifer o ganlyniadau canolradd y gellir eu defnyddio i asesu’r cynnydd y mae Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau yn ei wneud tuag at gyflawni amcanion terfynol y rhaglen.

**Prif Ganfyddiadau: Rhesymeg y Rhaglen**

1.9 Ymchwilir i resymeg y rhaglen trwy adolygu’r polisi, ynghyd â’r llenyddiaeth, sy’n gysylltiedig â rhaglenni tebyg i raglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau. Daethpwyd i’r casgliad bod yna nifer o gamau ‘creu amgylchiadau’ i fynd drwyddynt cyn y gellir datgloi gwir werth addysgu a dysgu creadigol, gan bwysleisio y dylid ystyried risgiau a chynlluniau wrth gefn drwy broses werthuso ffurfiannol. Er enghraifft, mae’r canlynol yn wybyddus:

- heb y prosesau ymgeisio a dethol cywir gall fod disgwyliadau gwahanol rhwng ysgolion ac artistiaid a hynny’n peryglu’r cynllunio prosiect
- heb brosesau cynllunio a chefnogaeth ddigonol mae’n bosibl y gellid camddehongli addysgu creadigol a bydd deilliannau dysgu yn llacio neu’n datgysylltu o’r mewnbwn creadigol, gan golli’r ymdeimlad o fwriad ac achosiaeth sy’n hanfodol i lwyddiant
- heb ddigon o arbenigedd allanol i gefnogi cyfnodau gweithredu, gall rhai o’r heriau addysgol sy’n codi o ddysgu creadigol fynd yn drech, gan arwain at ymddieithrio ar ran yr athrawon a’r artist yn cymryd drosodd
- heb ddigon o adfyfyrio a mecanweithiau ar gyfer rhannu dysgu rhwng artistiaid ac athrawon, gellid colli llawer o’r ddealltwriaeth a all arwain at newidiadau cynaliadwy i ymarfer

- heb ddeall y newid mewn diwylliant sy'n rhan o ddefnyddio dulliau creadigol wrth addysgu a dysgu, ni roddir digon o amser yn ystod cyfnodau cynnar y rhaglen i ysgolion, athrawon a disgyblion lunio normau newydd, a thrwy hynny caiff yr amcanion hirdymor sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad eu peryglu
- heb ymrwymiad arweinyddiaeth uwch, heb ddiwylliant o ddatblygiad athrawon, heb fewnbwn ansawdd uchel gan weithwyr creadigol proffesiynol a heb strategaethau creadigol i wella agwedd meddwl disgyblion tuag at ddysgu, mae'n annhebygol y cynhyrchir digon o fomentwm i gyflawni amcanion lefel uchel y rhaglen

1.10 Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond mae'n pwysleisio'r gwersi sydd i'w codi o'r ymchwil ac, wrth gwrs, y peryglon i'w hosgoi wrth gynllunio a gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

1.11 Canfyddiad allweddol yw bod angen i ni ddeall yr hyn y dylem ddisgwyl ei weld chwe mis i'r rhaglen, yn hytrach na chwe blynedd yn ddiweddarach. Ni ddylem, er enghraifft, fod yn rhuthro i chwilio am arwyddion yr effeithiau ar gyrhaeddiad disgyblion ledled y wlad yn rhy fuan – bydd mathau eraill o ddangosyddion yn fwy arwyddocaol yn y camau cynnar ac yn gallu bod yn rhagflaenwyr pwysig i effeithiau diweddarach ar ddisgyblion.

**Prif Ganfyddiadau: Dyluniad y Rhaglen a'i Gweithredu**

1.12 Mae'r trosolwg o gynllun y rhaglen a'r gwaith yn ei gweithredu yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, yn ogystal â thanlinellu rhagdybiaethau y bydd angen i'r gwerthusiad eu hadolygu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cynnwys:

*Maes 1: Ysgolion Creadigol Arweiniol*

- Mae ysgolion yn awyddus i gymryd rhan a byddant yn gwneud cais i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol.
- Mae gan ysgolion y cymhelliant cywir dros wneud cais (i dreialu dulliau creadigol o ddysgu yn hytrach nag i ddenu cyllid 'newydd').
- Gellir canfod Asiantiaid ac Ymarferwyr Creadigol sydd â'r casgliad cywir o sgiliau, eu recriwtio ac (os oes angen) eu datblygu.
- Gall ymarferwyr creadigol ac athrawon gydweithio'n effeithiol.
- Mae'r athrawon eisiau cymryd rhan yn y cynllun ac mae ganddynt y gallu a'r cyfle i wneud hynny – a yw'r awydd i gymryd rhan yn treiddio i lawr y tu hwnt i uwch reolwyr / y rhai sy'n gwneud cais am y cynllun?

- Mae dwy flynedd yn ddigon i sicrhau canlyniad cadarnhaol i ddysgwyr ac i sicrhau bod unrhyw newid a gynhyrchir yn dod yn rhan annatod o ddull gweithio’r athrawon ac o fewn yr ysgol.
- Ceir cefnogaeth uwch reolwyr mewn ysgolion, neu gellir datblygu’r gefnogaeth honno.

*Maes 2: Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan*

- Mae Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg yn ddull effeithiol i ymgysylltu ag athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol.
- Bydd gan ysgolion ddiddordeb yn y cyllid sydd ar gael drwy Gronfa Profi’r Celfyddydau ac maent yn gallu gwneud cais am y cyllid hwnnw.
- Bydd digon o gyfleoedd priodol ar gael i ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.
- Bydd ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ymgysylltu’n effeithiol â’r Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol.
- Mae porth dysgu ar-lein yn ddull effeithiol i ymgysylltu ag athrawon, dysgwyr, ac ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol, gan gynnwys y rheiny nad ydynt (eto) wedi ymwneud â’r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.
- Gall y cynllun weithio’n wahanol yng ngwahanol sefyllfaoedd ieithyddol a sgiliau ieithyddol y dysgwyr, athrawon ac ymarferwyr.

**Cwestiynau Gwerthuso**

1.13 Mae Cwestiynau Gwerthuso yn ei gwneud yn haws penderfynu pa ddata i’w gasglu, sut i’w ddadansoddi, a sut i adrodd am y data hwnnw. Nid yw’r rhain yn gwestiynau a ofynnir mewn cyfweliad neu drwy holiadur ond yn hytrach yn gwestiynau ymchwil lefel uchel a gaiff eu hateb drwy gyfuno data o sawl ffynhonnell.

1.14 Mae’r cwestiynau gwerthuso allweddol ar gyfer yr astudiaeth hon (Pennod 5) wedi eu codi o’r trafodaethau a gyflwynir ym mhenodau eraill yr adroddiad hwn. Y cwestiynau hyn fydd sail y fframwaith gwerthuso a ddatblygir yn ystod cam nesaf yr astudiaeth. Bydd y fframwaith hwnnw yn cynnwys y dangosyddion a ddefnyddir i helpu i ateb y cwestiynau gwerthuso (fel y trafodir yn yr adroddiad hwn) yn ogystal â manylion ynghylch sut a phryd y bydd y data/tystiolaeth yn cael eu casglu a’u dadansoddi.

**Camau Pellach y Gwerthusiad**

1.15 Cam nesaf ein gwaith yw datblygu'r fframwaith gwerthuso a fydd yn rhoi strwythur ar gyfer y gwerthuso ac a fydd yn manylu ar y canlynol:

a) cwestiynau i'w hateb (cwestiynau gwerthuso)
b) tystiolaeth i'w chasglu (dangosyddion)
c) sut y caiff ei chasglu (dull)
d) pryd y caiff ei chasglu (dull)
e) sut y bydd yn cael ei dadansoddi (dull).

Mae adolygu data monitro'r rhaglen yn digwydd yn barhaus wrth i elfennau'r rhaglen gael eu sefydlu a data yn dod i law.

1.16 Bydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn defnyddio tymor yr haf i werthuso eu gweithgarwch. Dylai hyn roi rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim cystal. Hefyd, bydd yn rhoi enghreifftiau o unrhyw fanteision, neu heriau, annisgwyl i'r cynllun, o ran y broses a'r effaith. Bydd y ffurflenni gwerthuso wedi'u llenwi yn dangos sut mae ysgolion, Asiantiaid ac Ymarferwyr Creadigol yn monitro a gwerthuso eu gweithgareddau, ac yn tynnu sylw at fylchau, arferion da a meysydd lle dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ymhellach arnynt.

1.17 Mae'n debygol y bydd y rhaglen yn sail i gyfranogiad Cymru mewn astudiaeth ymchwil gan yr OECD. Bydd hyn at ddibenion asesu cynnydd mewn creadigrwydd a meddwl yn feirniadol mewn ysgolion. Mae'r astudiaeth yn ymwneud â datblygu dulliau addysgu ac arferion dysgu creadigol mewn ystafelloedd dosbarth, ac mae'n treialu profion mewn creadigrwydd (meddwl cydgyfeiriol a dargyfeiriol). Er y byddai cymryd rhan yn llawn yn yr astudiaeth o bosibl yn galw am ormod o adnoddau, efallai y byddai cyfleoedd i ymwneud â'r astudiaeth drwy ddefnyddio is-gasgliad o ysgolion wedi'u codi o garfannau cyntaf ac ail yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gall profion yr OECD helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu offer mwy soffistigedig ar gyfer profi 'Pum Arfer Creadigol y Meddwl'.

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir

2.1 Mae'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen ei rheoli gan dîm o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogi. Fe'i cefnogir gan fuddsoddiadau cyfartal gan Loteri'r Celfyddydau a chyllid yr Adran Addysg a Sgiliau, sef cyfanswm o tua £20m dros bum mlynedd. Cafodd ei lansio ym mis Mawrth 2015.

2.2 Mae'r fenter Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cynnwys gweithgareddau addysgol mewn dau faes arloesol. Mae Maes 1, sef cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd. Mae'n ymyriad dwys sy'n cynnwys athrawon, 'Asiantiaid Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol' yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig dull creadigol o fynd ati i ddysgu. Rhagwelir y bydd y Cynllun hwn yn cefnogi tua thraean o ysgolion Cymru dros oes pum mlynedd rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

2.3 Mae Maes 2, sef Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, yn cynnwys ystod o wahanol weithgareddau a gynlluniwyd i gynyddu a gwella'r cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celf/diwylliannol/treftadaeth i weithio gyda'i gilydd. Mae'r Cynnig yn cynnwys:

a) *Porth Dysgu Creadigol a'r Celfyddydau* – wedi'i gynllunio i fod yn ffynhonnell gwybodaeth ac yn ganolbwynt cydweithio i athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol.

b) sefydlu pedwar *Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg* sydd â chylch gwaith, ymhlith pethau eraill, i gynnig cyfleoedd i athrawon ac artistiaid i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

c) *Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol* a'u rôl nhw fydd hyrwyddo'r arfer gorau a rhoi cymorth i eraill fabwysiadu dulliau tebyg.

d) *Cronfa Profi'r Celfyddydau* a ddefnyddir i annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd un cam ymhellach' wrth iddynt archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol .

**Diben y gwerthusiad a'r dull**

2.4 Dyma'r adroddiad cyntaf ar y gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, sef gwerthusiad sy'n cael ei gynnal ochr yn ochr â gweithredu'r rhaglen. Caiff y gwerthusiad ei wneud gan y cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd, Wavehill, ar y cyd â'r RSA a Consilium Research and Consultancy. Yn fras, diben y gwerthusiad yw archwilio proses, effaith a gwerth am arian y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Bydd y gwerthusiad yn asesu effeithiolrwydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ôl ei rinweddau ei hun, ond bydd hefyd yn cysylltu'r canfyddiadau â llenyddiaeth sydd ar gael sy'n disgrifio effeithiau'r celfyddydau a chreadigrwydd mewn ysgolion. Drwy hyn, bydd yn cyfrannu at ddysg a datblygiad mewn perthynas ag addysg greadigol, a hynny mewn ffyrdd a fydd o bosibl yn dylanwadu ar drafodaethau ac arferion yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

2.5 Mae amcanion penodol y gwerthusiad hwn wedi'u nodi yn Atodiad 1. Maent yn cynnwys datblygu model rhesymeg y rhaglen a'r theori newid ar gyfer y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Y rhain oedd ffocws cam cyntaf y gwerthusiad, a'r adroddiad hwn.

2.6 Mae'r ymchwil a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf yn cynnwys:

- adolygu'r cyd-destun strategol a pholisi y mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'i osod ynddo, ynghyd ag adolygiad llenyddiaeth yn archwilio'r dystiolaeth o blaid y dull sy'n cael ei gyflwyno gan Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Nod yr adolygiad cefndir hwn oedd gwella dealltwriaeth o'r cyd-destun y mae'r Rhaglen wedi'i ddatblygu ynddo, yn ogystal â'r graddau y mae'r model Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol ac, felly, yn adlewyrchu theori newid gredadwy
- sesiynau gweithdy Theori Newid gydag (a) aelodau grŵp llywio'r gwerthusiad a rhanddeiliaid allweddol eraill, a (b) tîm Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru
- adolygu llenyddiaeth prosiect ynghyd ag ymgynghoriadau cwmpasu gydag aelodau allweddol tîm Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a grŵp llywio'r gwerthusiad. Roedd hyn yn bwydo i mewn i ddatblygiad y theori newid sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen.

### Strwythur yr adroddiad hwn

2.7 Mae strwythur gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno'r Theori Newid sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen
- Mae Pennod 3 yn archwilio'r Rhesymeg dros y Rhaglen
- Ym Mhennod 4 ceir trosolwg o gynllun y Rhaglen a'r gwaith o'i gweithredu, ynghyd â'r rhagdybiaethau a wnaed y bydd yn rhaid i'r gwerthusiad eu hadolygu
- Mae Pennod 5 yn cyflwyno'r cwestiynau lefel uchel y bydd y gwerthusiad yn ceisio eu hateb, ac
- Yn olaf, mae Pennod 6 yn dwyn ynghyd canfyddiadau a chasgliadau'r cam cyntaf hwn yn y gwerthusiad.

# 3. Theori Newid

## Prif bwyntiau

- Nodwyd pump o grwpiau buddiolwyr (Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau) yn y Theori Newid: Dysgwyr, Athrawon, Ysgolion, Artistiaid a Sefydliadau Celf a gwneuthurwyr Polisi Addysg.
- Datblygwyd Theorïau Newid gwahanol ar gyfer dau faes Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ogystal ag ar gyfer pob un o'r grwpiau buddiolwyr.
- Y dangosyddion canlyniadau a nodwyd wrth ddefnyddio model newid ymddygiad fydd sail y Fframwaith Gwerthuso a ddatblygir yn ystod cyfnod nesaf y gwerthusiad.

### Cyflwyniad

3.1 Gellir disgrifio Theori Newid fel map ffordd a hwnnw'n amlinellu'r pethau (canlyniadau canolradd/ *intermediary outcomes*) sy'n gorfod digwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol. Mae Model Rhesymeg yn ddull sy'n perthyn yn agos (y cyfeirir ato hefyd weithiau fel 'rhesymeg ymyriad' neu 'ddamcaniaeth rhaglen') ac sy'n dangos, yn graffigol, y rhesymeg dros ymyriad ac mae'n ddefnyddiol i ddisgrifio'n gryno elfennau allweddol ymyriad a'r rhyngweithio rhwng cysylltiadau. Mae'r elfennau allweddol fel arfer yn cynnwys mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau'r ymyriad.[2] Mae'r drafodaeth yn y bennod hon yn tynnu ar y ddau gysyniad (Theori Newid a Rhesymeg Ymyriad).

3.2 Gall Theori Newid a model rhesymeg effeithiol fod yn arfau defnyddiol iawn ar gyfer rhaglenni gan y gallant ddatgelu:

- a yw'r gweithgareddau a gynhelir yn gwneud synnwyr, o ystyried amcanion y rhaglen
- a oes pethau yn cael eu gwneud nad ydynt yn helpu i gyflawni amcanion y rhaglen (h.y. nad ydynt yn arwain at ganlyniad perthnasol)
- a oes bylchau yn y cymorth a ddarperir (h.y. nid yw rhai o'r ystod o ganlyniadau interim angenrheidiol yn cael eu cyflawni)
- sut i fesur yr effaith ac/neu gynnydd tuag at gyflawni canlyniad terfynol y rhaglen
- bodolaeth unrhyw ganlyniadau ychwanegol neu anrhagweledig nad ydynt o bosibl wedi cael eu rhagweld cyn hynny.

[2] Y Llyfr Magenta, Canallawiau Gwerthuso / Guidance for Evaluation, Trysorlys Ei Mawrhydi (2011)

3.3 Mae'r pwynt olaf yn bwysig iawn gan fod ymyriadau yn aml yn digwydd mewn sefyllfa lle nad yw'r rheiny sy'n gyfrifol am asesu'r rhaglen yn debygol o weld (neu'n gallu mesur) y canlyniad terfynol yn ystod eu hoes. Gall hyn ei gwneud yn anodd asesu a oes modd ystyried y rhaglen yn llwyddiant ai peidio. Fodd bynnag, os gallwn ddangos bod canlyniadau interim (a fydd yn y pen draw yn arwain at y canlyniad terfynol) wedi cael eu cyflawni, bydd hi'n bosibl barnu ynghylch llwyddiant neu fethiant y rhaglen.

3.4 Mae'r broses yn ddefnyddiol hefyd oherwydd ei bod yn nodi'r rhagdybiaethau a wneir, neu a wnaed, wrth lunio rhaglen. Er enghraifft, rhagdybir y bydd rhai camau gweithredu penodol yn arwain at ganlyniadau penodol neu y bydd rhai canlyniadau interim yn arwain at y canlyniad terfynol a ddymunir. Mae profi cywirdeb y rhagdybiaethau hynny yn rhan bwysig o unrhyw werthusiad.

3.5 Cyn mynd ati i drafod Theori Newid, mae'n bwysig, fodd bynnag, adolygu'n gryno iawn y weledigaeth a'r amcanion sydd wedi eu diffinio ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

**Gweledigaeth ac Amcanion**

3.6 Dyma'r 'weledigaeth' sydd wedi'i nodi ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau:

> *Dylai'r celfyddydau a dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu fod â rhan bwysig yn ein holl ysgolion, lle bo cydweithio â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a hefyd ag ymarferwyr creadigol yn nodwedd gyffredin, a lle bo arfer da wedi'i rannu ac yn hygyrch i bawb.*[3]

3.7 Disgrifir yr 'amcan cyffredinol' (yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) i fod yn wella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith anfantais ac/neu amddifadedd (mae'r union ddiffiniad eto i'w gytuno arno).

**Ystyriaeth**

3.8 Er bod 'lleihau effaith anfantais' yn rhan o'r amcan cyffredinol, ni chaiff ei nodi yn bendant yn y tri amcan mwy penodol. Gallai hyn arwain at y risg na fydd yr elfen benodol hon o'r amcan cyffredinol yn cael ei rhoi ar waith. Mae'n bwysig arddel unrhyw ragdybiaeth o flaenoriaeth i ddysgwyr dan anfantais wrth weithredu rhaglen, boed hynny'n amlwg, drwy awgrym neu'n anuniongyrchol, a bod cynnydd yn y maes hwn yn cael ei fonitro.

[3] Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020

3.9 Mae'r amcan cyffredinol wedyn wedi'i rannu yn dri 'is-amcan' mwy penodol sef:

1) gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd
2) cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion
3) cefnogi athrawon ac ymarferwyr celf i ddatblygu eu sgiliau.

3.10 Nodwyd pum grŵp o fuddiolwyr i'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dysgwyr | Athrawon | Ysgolion | Artistiaid a Sefydliadau Celf | Gwneuthurwyr Polisi Addysg |

Dyma'r prif grwpiau buddiolwyr ar gyfer dau faes y cynllun. Fodd bynnag mae'r Theori Newid ar gyfer y ddau faes yn wahanol, ac felly mae'r rhain wedi'u cyflwyno ar wahân isod.

**Y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)**

3.11 Mae maes y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd (h.y. is-amcan rhif 1). At ddibenion y cynllun, defnyddir 'pum arfer creadigol y meddwl' yn ddangosyddion creadigrwydd:[4]

1. chwilfrydig – meddwl a holi, archwilio ac ymchwilio, herio rhagdybiaethau
2. dyfalbarhau – goddef ansicrwydd, dal ati drwy anawsterau, beiddio bod yn wahanol
3. llawn dychymyg – chwarae â phosibiliadau, gwneud cysylltiadau, defnyddio greddf
4. disgybledig – saernïo a gwella, datblygu technegau, adfyfyrio'n feirniadol
5. cydweithredu – cydweithio'n addas, rhoi a derbyn adborth, rhannu'r 'cynnyrch' creadigol

3.12 Mae'r graffigwaith ar y dudalen ganlynol yn dangos y Theori Newid ar gyfer y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae'r siapiau hirgrwn coch yn y graffigwaith yn dangos y gweithgareddau sylfaenol sy'n cael eu gwneud yn y cynllun, tra bod y siapiau petryal glas yn dangos canlyniadau'r gweithgareddau hyn.

3.13 Mae'r Theori Newid yn dangos mai manteision cymryd rhan yn y sesiynau gyda'r Ymarferydd Creadigol, i'r disgyblion, yw'r canlyniad cyntaf. Mae'r manteision i'r athrawon sy'n cymryd rhan yn dilyn hynny, drwy eu bod hwy'n sylwi ar y manteision i'r disgyblion. Ceir wedyn effaith pelen eira sy'n arwain at y manteision

[4] Mae Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg (CCE) wedi nodi pump o 'arferion meddwl' (*habits of mind)* yn ddangosyddion i greadigrwydd yn seiliedig ar waith Claxton et al (2005).

i’r athrawon eraill, i uwch reolwyr yr ysgol ac i wneuthurwyr polisi. Yn y bôn, dyma ddull ‘prawf cysyniad’, sef dangos bod disgyblion yn elwa o’r dull gweithredu ac y bydd y canlyniadau eraill (ac yn y pen draw y canlyniad terfynol – sef gwell cyrhaeddiad) yn dilyn.

3.14 Mae rhesymeg sylfaenol y Theori Newid fel y nodir uchod ac yn y graffigwaith yn glir, a dyma’r theori fel y’i cyflwynwyd gan y rhai a luniodd y cynllun. Gellid dadlau, fodd bynnag (fel ag y gwnaeth rhai o’r cyfranogwyr yn y gweithdai a gynhaliwyd fel rhan o gam hwn y gwerthusiad) ei bod yn rhagofyniad cael o leiaf rhywfaint o ddealltwriaeth o greadigrwydd fel arf dysgu ar lefel polisi ac ysgol (uwch reolwyr). Mae hyn oherwydd bod angen i’r ysgol (trwy ei huwch reolwyr) wneud cais llwyddiannus i gymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.


3.15 Er mwyn gwneud hynny, mae angen o leiaf peth dealltwriaeth sylfaenol o werth y dull o fewn yr ysgol. Hefyd, mae’n rhaid i athrawon yn yr ysgol ddewis cymryd rhan.[5]

3.16 Mewn perthynas â’r pryderon hyn, gellid dadlau mai’r camau cyntaf yn y Theori Newid fyddai datblygu dealltwriaeth sylfaenol o’r cysyniad ar lefel yr uwch reolwyr ac ymhlith rhai athrawon yn yr ysgol. Gellir cyflwyno dadl debyg o ran nodi gwneuthurwyr polisi fel cyfranogwyr yng ngham cyntaf Theori Newid; os nad oes dealltwriaeth o’r cysyniad ar lefel polisi, ni fydd unrhyw arian yn cael ei neilltuo i’r cynllun, ac yn y blaen. Mae hyn yn amlygu pwynt ehangach ynghylch yr angen i gydnabod creadigrwydd mewn polisïau ac mewn hyfforddiant athrawon er mwyn i’r dull gael ei ‘brif-ffrydio’.

3.17 Gwelwyd yn ystod cam cyntaf y cynllun nad yw hi wedi bod yn angenrheidiol annog ysgolion i wneud cais i gymryd rhan. Fodd bynnag, mae’n bosibl na fydd hyn yn parhau yn ystod cyfnodau dilynol gan y bydd yr ysgolion hynny sydd â diddordeb gweithredol yn y pwnc eisoes wedi mynd drwy’r cynllun.

[5] Mae athro wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y cynllun mewn o leiaf un o'r ysgolion a ddynodwyd yn Ysgol Greadigol Arweiniol.

**Ffigwr 3.1: Theori Newid ar gyfer y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**



**Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)**

3.18 Mae Maes 2 wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlynol (sy'n ymwneud ag is-amcanion 2 a 3 y rhaglen):


a) cynyddu a gwella **cyfleoedd** i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celf/diwylliannol/treftadaeth i gydweithio
b) cynyddu'r **cyfleoedd** i bobl ifanc gael profiad o waith artistiaid a sefydliadau celf/diwylliannol Cymru
c) creu mwy o **gyfleoedd** i gyfathrebu a phartneriaethau rhwng ysgolion, artistiaid, sefydliadau celf/diwylliannol/treftadaeth a chymunedau lleol.

3.19 Mae'r holl amcanion hyn yn weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau. O'r herwydd, mae hyn yn ymyriad llawer ehangach ac yn llai penodol na'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol sydd wedi'i gynllunio i weithio'n ddwys gydag ysgolion unigol. Mae'r ffocws, yma, ar greu 'cyfleoedd' tra bod y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i gynllunio â chanlyniad terfynol penodol iawn mewn golwg – sef gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd. Yn amlwg, fodd bynnag, mae'n rhaid fod rheswm dros greu'r cyfleoedd hyn.

3.20 Mae'r graffigwaith ar y dudalen ganlynol yn dangos y Theori Newid ar gyfer gweithgareddau Maes 2. Unwaith eto, mae'r siapiau hirgrwn coch yn y graffigwaith yn dangos y gweithgareddau sylfaenol a wneir yn y cynllun, tra bod y siapiau petryal glas yn dangos canlyniadau'r gweithgareddau.

3.21 Mae rhesymeg sylfaenol y Theori Newid, unwaith eto, yn glir. Ac unwaith eto, elfen hollbwysig yw rhagofyniad bod gan athrawon ac ysgolion o leiaf ddealltwriaeth sylfaenol o greadigrwydd fel arf dysgu er mwyn cymryd rhan yn yr ymyriad. Mae dibyniaeth yn y theori hefyd ar i'r athrawon a'r ysgolion weithredu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ymyriad yn yr ysgol / ystafell ddosbarth. Mae ymrwymiad rhanddeiliaid eraill fel galluogwyr, dylanwadwyr a llunwyr polisi ac arferion, hefyd yn bwysig: er enghraifft, Awdurdodau Lleol (ALlau), Consortia Addysg Rhanbarthol, canolfannau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), Estyn a Llywodraeth Cymru .


**Ffigwr 3.2: Theori Newid ar gyfer Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan**



**Arsylwi a Mesur Newid**

3.22 Mae’n bwysig ystyried beth fydd y newid i bob un o’r pum grŵp o fuddiolwyr, er mwyn medru arsylwi a mesur unrhyw newid o’r fath.

Ar gyfer pob grŵp, bydd y newid yn dilyn model newid ymddygiad sylfaenol fel y dangosir isod.





3.23 Er enghraifft, yn gyntaf bydd angen i ddisgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol o’r dull creadigol o ddysgu, yna mae angen iddynt fod â diddordeb yn y dull, a hefyd mae’n rhaid iddynt fod ag awydd cymryd rhan neu ddefnyddio’r dull ac yna datblygu’r wybodaeth a’r gallu i wneud hynny. Dylai hyn (yn unol â’r Theori Newid) arwain at newid yn eu hymddygiad ac, felly, mewn perfformiad. Yn achos disgyblion, bydd perfformiad yn y pen draw yn cael ei fesur yn ôl eu cyrhaeddiad (er y rhagwelir y bydd yna ganlyniadau cynharach fel y trafodir isod). I athrawon, eu perfformiad fel athrawon ydyw. Gallwn hefyd ychwanegu ‘cynaliadwyedd’ i’r model: i ba raddau y mae’r newidiadau y sylwyd arnynt yn gynaliadwy yn y tymor hwy? A fyddant yn cael eu cynnal unwaith y bydd yr ymyriad wedi dod i ben?

3.24 Gallwn ddefnyddio’r model hwn fel sail ar gyfer arsylwi a mesur newid ym mhob un o’r grwpiau buddiolwyr a nodwyd yn y Theori Newid fel y dangosir yn y graffigwaith a’r tablau sy’n dilyn. Yr eithriad yw newidiadau mewn gwneuthurwyr polisi, gan na fydd y rhain yn brif ffocws i’r gwerthusiad hwn am y tro.

3.25 Ar brydiau, mae'r gwahaniaeth rhwng y categorïau lle ceir dangosydd ynddynt yn gallu bod yn 'niwlog'. Er enghraifft, gallai dangosydd gyd-fynd â'r categori 'gwybodaeth a gallu' yn ogystal â'r categori 'ymddygiad / agwedd' oherwydd mai'r newid mewn ymddygiad sy'n dangos y newid mewn gwybodaeth a gallu. Ni ddylai hyn, fodd bynnag, fod yn destun pryder mawr gan mai'r prif bwrpas yw nodi dangosyddion newid yn y grŵp rhanddeiliaid. Datblygwyd y dangosyddion ar sail y trafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o weithdai Theori Newid a chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

3.26 Megis yn y diagram blaenorol, mae'r siapiau hirgrwn coch yn y graffigwaith yn dangos y gweithgareddau sylfaenol a wneir, tra bod y siapiau petryal glas yn dangos y canlyniadau.

**Ffigwr 3.3: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer DYSGWYR**



**Rhagdybiaeth**

1. Bod ansawdd a 'dyfnder' yr ymyriad yn ddigonol i esgor ar y canlyniad hwn.
2. Bod y cyfleoedd hyn yn bodoli a'u bod o fewn cyrraedd y dysgwr, ac ati.
3. Bod y dysgwr yn cael y cyfle i wneud hyn.
4. Bod gwell sgiliau a galluoedd creadigol yn arwain at y canlyniadau hyn (ochr yn ochr â ffactorau eraill).

* Noder: gallai ymwneud mwy â'r celfyddydau arwain at ganlyniadau pellach i'r unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, dyma'r 'canlyniad terfynol' o ran yr ymyriad hwn.


**Tabl 3.1: Dangosyddion newid mewn DYSGWYR**

| Ymwybyddiaeth \| Diddordeb | Gwybodaeth a Gallu | Perfformiad |
|---|---|---|
| 1. Lefel y diddordeb yn y celfyddydau a gweithgareddau creadigol | 1. Datblygu gallu a sgiliau creadigol[6]<br>2. Gwybodaeth am weithgareddau creadigol / y celfyddydau yn yr ardal leol / Cymru<br>3. Defnyddio sgiliau creadigol mewn gweithgareddau nad ydynt yn rhai creadigol (argraff athrawon) (profi disgyblion) | 1. Newidiadau mewn agwedd meddwl tuag at ddysgu gan gynnwys:<br>a) Di-ildio<br>b) Medrus<br>c) Adfyfyriol<br>d) Cydweithredu<br>2. Newidiadau mewn nodweddion 'dysgu effeithiol'<br>3. Offer ymchwilio OECD (sampl)<br>4. Perfformiad academaidd |
| **Awydd** | **Ymddygiad \| Agwedd** | **Cynaliadwyedd** |
| 1. Cymryd camau i ennill sgiliau creadigol – pa mor aml, pa mor ddwys a pha mor hir y cymerir rhan mewn gweithgareddau creadigol<br>a) Gwirfoddol<br>b) Gorfodol<br>2. Mathau o weithgareddau / gweithredu a wnaed | 1. Lefelau presenoldeb ysgolion / dosbarthiadau<br>2. Newidiadau ym marn y dysgwyr am athrawon<br>3. Newid yn eu barn am ysgol fel lleoliad i ddysgu<br>4. Newid mewn dyheadau bywyd / gyrfa<br>5. Ymwneud â gweithgareddau celf a chreadigol y tu allan i'r ysgol | Ddim yn ymarferol arsylwi arno / ei gofnodi |

Nodyn: angen gwaelodlin ac/neu grŵp cymharu

[6] Pump o arferion creadigol y meddwl / Five creative habits of mind

**Ffigwr 3.4: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer ATHRAWON**




Rhagdybiaethau:


1. Bod newid yn y dysgwyr y gall athrawon ei weld a'i briodoli i'r gweithgaredd a wnaed.
2. Bod gweithgareddau a chyfleoedd o'r fath i gymryd rhan ynddynt ar gael [CYSWLLT Â MAES 2].
3. Bod gan athrawon y cyfle i newid y ffordd maent yn addysgu.
4. Bod y newidiadau mewn arferion addysgu yn arwain at wella ansawdd yr addysgu.

**Tabl 3.2: Dangosyddion newid mewn ATHRAWON**

| Ymwybyddiaeth \| Diddordeb | Gwybodaeth a Gallu | Perfformiad |
|---|---|---|
| 1. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i athrawon*<br>2. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i ddysgwyr*<br>3. Ymwybyddiaeth o'r cymorth ac offer sydd ar gael | 1. Cwblhau gweithgarwch cynorthwyo a hyfforddiant | 1. Perfformiad yr athro/athrawes<br>a) Hunanasesu<br>b) Asesu annibynnol<br>2. Cynnydd gyrfa'r athro/athrawes |
| **Awydd** | **Ymddygiad \| Agwedd** | **Cynaliadwyedd** |
| 1. Ennill sgiliau - cymryd rhan yn yr holl weithgarwch cymorth a hyfforddiant:<br>a) Yn gysylltiedig â chreadigrwydd<br>b) Yn gyffredinol | 1. Pa mor ddwys a pha mor hir maent yn ymwneud â gweithgareddau creadigol yn yr ysgol<br>2. Defnyddio dulliau dysgu creadigol mewn amgylchiadau nad ydynt yn greadigol (heb gymorth allanol)<br>3. Newid yn y farn ynghylch addysgu fel galwedigaeth<br>4. Newid yn y farn am yr ysgol fel lleoliad i ddysgu a gweithio ynddo<br>5. Dyheadau gyrfa yn addysgu | 1. Pa mor hir y mae'r newidiadau yn ymddygiad athrawon yn para (ôl-ymyriad) |

Nodyn: angen gwaelodlin ac/neu grŵp cymharu

**Ffigwr 3.5: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer YSGOLION**




**Tabl 3.3: Dangosyddion newid mewn YSGOLION**

| Ymwybyddiaeth \| Diddordeb | Gwybodaeth a Gallu | Perfformiad |
|---|---|---|
| 1. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i athrawon* (S1)<br>2. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i ddysgwyr* (S2)<br>3. Ymwybyddiaeth o'r cymorth ac offer sydd ar gael (S3) | 1. Cwblhau gweithgarwch cynorthwyo a hyfforddiant | 1. Data perfformiad ysgol |

| Awydd | Ymddygiad \| Agwedd | Cynaliadwyedd |
|---|---|---|
| 1. Ennill sgiliau - athrawon yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgarwch cynorthwyo<br>a) Yn gysylltiedig â chreadigrwydd (S4)<br>b) Yn gyffredinol (S5) | 1. Y gyllideb a neilltuwyd / gwariant ar y celfyddydau ( y pen) (S6)<br>2. Y gofod ffisegol sy'n cael ei neilltuo i waith creadigol yn yr ysgol (cyfran o'r cyfanswm) (S7)<br>3. Pa mor hir a pha mor ddwys y mae disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau creadigol (ledled yr ysgol) (y pen)<br>4. Cyfran yr athrawon yn yr ysgol sy'n cymryd rhan mewn DPP sy'n gysylltiedig â chreadigrwydd<br>5. Cysylltiadau parhaus â'r sector creadigol (unigolion a sefydliadau) | 1. Pa mor hir mae'r newidiadau yn ymddygiad ysgol yn para (ôl-ymyriad) |

Nodyn: angen gwaelodlin ac/neu grŵp cymharu

**Ffigwr 3.6: Amlinelliad Theori Newid ar gyfer ARTISTIAID A SEFYDLIADAU CELF**




Rhagdybiaethau:

1. Bod y galw a grëwyd o ganlyniad i ymyriad yn gynaliadwy ar ôl i'r cyllid ddod i ben.
2. Bod gan y sector y gallu i ymateb i'r cyfle drwy gyflenwi'r galw a grëwyd.

**Tabl 3.4: Dangosyddion newid mewn ARTISTIAID A SEFYDLIADAU CELF**

| Ymwybyddiaeth \| Diddordeb | Gwybodaeth a Gallu | Perfformiad |
|---|---|---|
| 1. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i athrawon*<br>2. Ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol *i ddysgwyr*<br>3. Ymwybyddiaeth o'u rôl bosibl yn cefnogi datblygiad sgiliau creadigol | 1. Cwblhau gweithgarwch cynorthwyo a hyfforddiant | 1. Cyfanswm trosiant unigolion / sefydliadau<br>2. Cyfran y trosiant o'r sector addysg<br>3. Cyfran y sector yn cynnig gwasanaethau i'r sector addysg |

| Awydd | Ymddygiad \| Agwedd | Cynaliadwyedd |
|---|---|---|
| 1. Ennill sgiliau - cymryd rhan mewn gweithgarwch cynorthwyo a hyfforddiant | 1. Nifer ac amrywiaeth y gwasanaethau gan artistiaid a sefydliadau celf sydd ar gael i'r sector addysg<br>2. Dwyster a hyd cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol sy'n gysylltiedig ag addysg gydag ysgolion / dysgwyr | 1. Pa mor hir mae'r newidiadau yn para (ôl-ymyriad) |

Nodyn: angen gwaelodlin ac/neu grŵp cymharu

# 4. Y Rhesymeg dros y Rhaglen

**Prif bwyntiau**

- Mae'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cael ei gweithredu o ganlyniad i nifer o ddatblygiadau polisi yn y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru.
- Y brif sail resymegol dros Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel ymyriad, yn seiliedig ar lenyddiaeth ryngwladol a phrofiadau diweddar y Rhaglen Partneriaethau Creadigol yn Lloegr (a drafodir yn y bennod nesaf), yw bod tystiolaeth i awgrymu bod ymyriadau sydd â ffocws ar greadigrwydd a'r celfyddydau yn gallu rhoi hwb i gyrhaeddiad dysgwyr ar draws pob grŵp oedran.
- Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu y gall addysg sy'n llawn celfyddydau helpu i greu ymdeimlad o hyder personol, lles a dyheadau mewn dysgwyr.

**Cyflwyniad**

4.1 Beth yw'r rhesymeg dros yr ymyriad hwn? Pam fod y Rhaglen yn bodoli? Pam ei bod yn cael ei hariannu? Mae'r rhain yn gwestiynau pwysig i'w hateb gan unrhyw werthusiad, a rhoddir sylw byr iddynt yn y bennod hon.

4.2 Mae'r canlynol yn ystyried y tirlun polisi ehangach sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen, y rhagdybiaethau damcaniaethol allweddol sy'n sail i'w dyluniad ac i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth.

**Cyd-destun polisi**

4.3 Mae'r sail resymegol ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn deillio o bolisi yn ymwneud ag addysg yng Nghymru. Roedd adroddiad yr Athro Dai Smith yn 2013, sef *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*, yn argymell newid radical i'r ymagwedd tuag at y celfyddydau a chreadigrwydd mewn addysg yng Nghymru. Galwodd i greadigrwydd gael rôl ganolog o fewn y cwricwlwm. Byddai hyn, yn ei dro, yn gofyn am gefnogaeth i athrawon i ddatblygu dull mwy creadigol o addysgu a dysgu. Tynnodd yr Athro Smith sylw at y ffaith bod arlwy cyfoethog ac amrywiol o gelfyddydau a diwylliant eisoes ar gael i ysgolion ledled Cymru. Yr her oedd gwneud yr arlwy hwnnw yn fwy eang ac yn fwy perthnasol i ysgolion. Ym mis Mawrth 2014, bu i'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru gytuno â phob un o'r deuddeg o argymhellion a wnaed gan yr Athro Smith ac ymrwymo i ddatblygu Cynllun

Cenedlaethol ar gyfer y Celfyddydau a Dysgu Creadigol. Arweiniodd hyn yn y pen draw at sefydlu'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

4.4 Mae hefyd yn bwysig ystyried y datblygiadau ehangach yn ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Mae adroddiad yr Athro Donaldson – *Dyfodol Llwyddiannus* – yn cynnwys 68 o argymhellion, a phob un ohonynt wedi'u derbyn yn llawn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Mehefin 2015. Mae cwricwlwm newydd wrthi'n cael ei ddatblygu gyda gweithwyr proffesiynol addysg ledled Cymru gyda'r bwriad o fod ar gael i leoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2018. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw y bydd y cwricwlwm newydd erbyn 2021 yn cael ei ddefnyddio yn sail i addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 oed.

4.5 Disgrifir '4 diben' i fod wrth wraidd y cwricwlwm newydd. Y rhain fydd y man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ar gynnwys a phrofiadau a ddatblygir fel rhan o'r cwricwlwm i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru i fod yn:

1) ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
2) cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
3) dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd
4) unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

**Rhagdybiaethau**:

- bod y dystiolaeth a gasglwyd o ymyriadau eraill yn gywir ac y bydd dull tebyg yng Nghymru yn esgor ar yr un canlyniadau
- bod cydberthynas rhwng creadigrwydd a chyrhaeddiad
- bod cydberthynas rhwng creadigrwydd a'r '4 pwrpas'
- na fydd perfformiad yn ystod blynyddoedd cynnar y rhaglen yn dirywio yn sylweddol.

**Casgliad**:

- ar yr olwg gyntaf, ymddengys bod yna resymeg glir dros ariannu'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau
- fel y nodwyd uchod, gwneir nifer o ragdybiaethau, fodd bynnag, ac mae angen profi'r rhain wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

**Adolygu llenyddiaeth / tystiolaeth**

*Trosolwg*

4.6 Yn seiliedig ar lenyddiaeth ryngwladol, ac yn arbennig ar ymchwil Rhaglen y Celfyddydau mewn Addysg Chicago (CAPE), profiadau diweddar y Rhaglen Partneriaethau Creadigol yn Lloegr (2001-2011) a'r rhaglen datblygu Celfyddydau ar draws y Cwricwlwm yn yr Alban (Seagraves et al 2009), mae tystiolaeth i awgrymu bod ymyriadau sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus, sydd ag elfen gref o sicrhau ansawdd ac sydd â ffocws ar greadigrwydd a'r celfyddydau yn gallu hybu cyrhaeddiad dysgwyr ar draws pob cyfnod oedran. Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu y gall addysg sy'n gelfyddydol gyfoethog helpu i feithrin ymdeimlad o hyder personol, lles ac uchelgais. Mae'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn adeiladu ar y dystiolaeth hon trwy gynnig rhaglen Cymru-gyfan a all yn gredadwy fynd i'r afael â'r amcanion cyffredinol a nodir uchod.

4.7 Isod, rydym yn archwilio yn fyr rywfaint o'r llenyddiaeth ymchwil diweddar sy'n ymwneud ag amcan cyffredinol ac is-amcanion Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Yn y pen draw dylai hyn helpu i nodi rhai dangosyddion o lwyddiant cynnar, canol-tymor a therfynol, gan roi modd inni gael sicrwydd o'r cynnydd a wnaed a'r cyfeiriad teithio cyffredinol – hyd yn oed yn ystod misoedd cyntaf ymwneud ysgol â'r rhaglen.

**Yr amcan cyffredinol ac is-amcan 1: gwella cyrhaeddiad**

4.8 Mae gwella cyrhaeddiad trwy greadigrwydd yn faes yr ymchwiliwyd iddo'n bennaf trwy'r rhaglen Partneriaethau Creadigol (PC) yn Lloegr. Awgryma'r llenyddiaeth fod rhywfaint o fudd cymedrol i'w gael mewn dysg o fewn meysydd cwricwlwm ffurfiol yr ysgol, i'w fesur gan brofion ac arholiadau, ac yn enwedig mewn mathemateg a Saesneg (Cooper et al, 2011, Durbin et al, 2010). Roedd dangos effeithiau yn y maes hwn yn sicr yn her i'r rhaglen Partneriaethau Creadigol.

4.9 Fodd bynnag, mae ymchwil flynyddol gan NFER (y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg) a ddefnyddiodd dechnegau modelu aml-lefel i ynysu newidynnau, yn dangos gwelliannau cymedrol, ond yn ystadegol arwyddocaol, ym mhob cyfnod allweddol ar draws pob ysgol (Parker, 2013, tt. 82-83). Er hynny, roedd rhai ysgolion unigol yn honni newidiadau mwy sylweddol mewn dysgu - yr oedd Ysgolion Creadigrwydd Cenedlaethol yn arbennig, yn aml yn dangos llamau mwy dramatig mewn cyrhaeddiad (Faultley, Hatcher, & Millard, 2011; Thomson & Clifton, 2013). Yn yr Alban, mae gwerthusiad o'r rhaglen Cydlynwyr Diwylliannol Ysgolion yr Alban (CCiSS) wedi cyflwyno peth tystiolaeth o gyfraniad creadigrwydd i gyrhaeddiad disgyblion, er nad yw hyn wedi'i gofnodi'n gyson ledled yr holl ysgolion a gymerodd ran (Cyngor Celfyddydau'r Alban 2010).

4.10 Ceir tystiolaeth gref fod dysgu creadigol yn annog mwynhad ac ymgysylltiad mewn ysgolion. Gwelir hyn drwy welliannau mewn presenoldeb a mwy o gymhelliant (Eames et al, 2008a, Eames et al 2008b, Kendall et al 2008, McLellan et al, 2011).

4.11 Roedd tystiolaeth ymchwil o'r rhaglen datblygu Celfyddydau ar draws y Cwricwlwm yn yr Alban (sef rhaglen yr oedd ei hamcanion yn cynnwys cynyddu cyrhaeddiad a chymhelliant disgyblion a gwella ethos yr ysgol), wedi dod i'r casgliad bod y dulliau integredig a ddatblygwyd gan yr artistiaid a'r athrawon yn effeithiol i ganolbwyntio ar y cwricwlwm ar yr un pryd ag ennyn diddordeb disgyblion yn y ffurf gelf ac agweddau ehangach ar ddysgu (Seagraves et al 2008).

4.12 Mae astudiaethau achos o ysgolion bron bob amser wedi dwyn sylw at bresenoldeb gwell. Wrth edrych ar draws y gweithgareddau ar lefel genedlaethol, cadarnhawyd hyn dros amser ac ar draws y rhaglen gyfan. Dangosodd adroddiadau ansoddol yn glir fod athrawon yn credu bod myfyrwyr yn gyffredinol yn fwy brwdfrydig ac wedi'u hysgogi gan y dysgu, a hynny'n uniongyrchol oherwydd egwyddorion ac athroniaeth dysgu creadigol. Darganfu ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen y Celfyddydau fel Dull ar gyfer Dysgu ar draws y Cwricwlwm (ATLAC) yn yr Alban fod y cyfle i gyfuno amrywiol bynciau, megis iaith, mathemateg, gwyddoniaeth ac yn y blaen, â ffurfiau celfyddydol yn cyfrannu at lunio profiadau dysgu pleserus a 'gweithredol', a nodwyd bod hyn yn ddull addysgu mwy dymunol ar gyfer cyflawni bwriadau dysgu wedi'u targedu (Das & Gray 2008).

4.13 Gwelwyd y gwelliannau mwyaf yn yr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn y rhaglen dros gyfnod parhaus (Durbin et al, 2010.): mae dogfen Partneriaethau Creadigol *Changing Young Lives* (Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg, 2012) yn cyflwyno data cymharol sy'n dangos gwelliannau ym mhresenoldeb ysgolion dros gyfnod o bum mlynedd

4.14 Mae'r cwestiwn hwn ar ddwyster yr effaith dros gyfnod o amser yn berthnasol i Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, o ystyried oes y rhaglen a'i huchelgeisiau ar gyfer cynaliadwyedd. Casglodd Partneriaethau Creadigol astudiaethau ymchwil gwahanol ynghyd mewn cyhoeddiadau cryno o'r enw 'This Much We Know' (Partneriaethau Creadigol, 2007) a 'Changing Young Lives', (CCE, 2009, 2012).

4.15 **Gyda'i gilydd, mae crynodebau'r ymchwiliadau hyn yn awgrymu'n gryf bod yr effeithiau cychwynnol ar ethos a diwylliant athrawon, ac yna symudiadau dyfnach yn eu harferion a'u gwerthoedd ac agwedd meddwl disgyblion tuag at ddysgu wedi arwain, yn y diwedd, i effeithio ar gyrhaeddiad. Yn y bôn mae hyn yn crynhoi'r Theori Newid ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol.**

4.16 Gan atgyfnerthu'r ffaith na ellid disgwyl i gynnydd mewn cyrhaeddiad ddigwydd ond ar ôl ymwneud cyson a hirdymor mewn ymyriadau, dangosodd gwerthusiad o Raglen Celfyddydau mewn Addysg Chicago (CAPE) (Catterall & Waldorf 1999) mai ar ôl pedair blynedd y dechreuodd ysgolion CAPE ddangos gwahaniaethau sylweddol mewn mathemateg a darllen o'i gymharu ag ysgolion nad oeddynt yn rhan o CAPE a bod effaith hyn yn fwy tebygol o fod yn amlwg ar lefel ysgolion cynradd.

4.17 Cam pendant hollbwysig ar y llwybr i wella dysg disgyblion oedd creu'r amgylchiadau i sicrhau'r manteision dysgu i athrawon – nid oedd modd osgoi hyn.

4.18 **Awgryma hyn fod perthynas linol rhwng yr elfennau sy'n rhoi hygrededd i gynllun y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, o leiaf ar lefel y rhaglen gan y gallai tueddiadau fod yn wahanol o ysgol i ysgol, o ran manylder manwl gywir.**

4.19 Mae'r pwyslais y mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ei roi ar DPP ac ysgogi brwdfrydedd disgyblion o'r newydd i ddysgu yn awgrymu y byddai'n werth diffinio casgliad o ganlyniadau canolradd at ddibenion y gwerthusiad. Os dychmygir proses sy'n dechrau gyda newid diwylliant yn y camau cynnar – gan fod yn arwydd, ar lefel uchel, o ymgysylltu gwell i athrawon a disgyblion – yr hyn a allai ddilyn yw gwella presenoldeb ac ymddygiad dysgu yn yr ystafelloedd dosbarth a'r effeithiau dilynol wedyn ar sgiliau creadigol a chyrhaeddiad yn dod i'r amlwg yn nes ymlaen. Mae creu metrics ar gyfer pob cam efallai'n bosibl.

4.20 Mae'r adolygiad o greadigrwydd ledled dysgu a wnaed gan Addysg yr Alban (2013) yn amlygu rôl bwysig sgiliau creadigrwydd wrth gyfrannu at allu unigolyn i ddeall a defnyddio prosesau creadigol. Gall cefnogi plant a phobl ifanc i feithrin sgiliau creadigrwydd ddarparu ystod o fanteision, gan eu galluogi i adnabod a datrys problemau, defnyddio meddwl ochrol neu ddargyfeiriol, harneisio eu dychymyg a bod yn adeiladol chwilfrydig. Mae'r adolygiad yn nodi bod defnyddio sgiliau creadigol wrth i blant a phobl ifanc dyfu a datblygu sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith yn arbennig o bwysig gan eu bod yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu byd yn ogystal â gallu dylanwadu ar ffurf y byd hwnnw ac i arfer rheolaeth dros eu hymwneud ag ef. Awgryma hyn y byddai'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau efallai am fesur caffael sgiliau creadigrwydd a chyrhaeddiad fel canlyniadau gwahanol ond cysylltiedig (gweler Atodiad 2 i gael trosolwg o sgiliau creadigrwydd).

4.21 Mae ymchwil Partneriaethau Creadigol hefyd yn awgrymu, yn gyffredinol, fod y rhaglen yn esgor ar gryn fanteision i bobl ifanc: ym meysydd lles, dinasyddiaeth a sgiliau ac arferion sy'n gysylltiedig â gwaith.

**Is-amcan 2: cynyddu a gwella profiadau celfyddydol mewn ysgolion**

4.22 Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, fel Partneriaethau Creadigol o'i flaen, mae mynd i'r afael â nifer o wahanol agendâu. Bydd yn ceisio troedio llinell sy'n cynnal tensiwn cynhyrchiol rhwng dysgu diwylliannol a chreadigol yn ei rinwedd ei hun yn ogystal ag fel modd o wella cyrhaeddiad mewn pynciau eraill.

4.23 Awgryma ymchwil fod gwella ansawdd y ddarpariaeth gelfyddydol yn yr ysgol yn cael cryn hwb drwy'r hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i athrawon fel rhan o gynllun ymyriad. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth a hyder athrawon o ran darpariaeth gelfyddydol o safon uchel. Fe'i cyflawnir hefyd drwy gyfrwng holl effeithiau'r rhaglen gyda'i gilydd – casgliadau o effeithiau llai yn cyfuno i wneud ysgolion ymddangos yn lleoliadau ansoddol well i weithio a dysgu ynddynt.

4.24 Mae llenyddiaeth ymchwil Partneriaethau Creadigol (PC) yn awgrymu wyth proses y cafodd deilliannau dysgu y celfyddydau eu cyflawni drwyddynt; nodir y rhain yn Thomson et al (2014):

1. daeth PC ag **adnoddau newydd i'r ysgol**; roedd yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau newydd i athrawon a myfyrwyr drwy dechnolegau newydd a ffurfiau celf a chyfryngau gwahanol
2. roedd yr **Asiant Creadigol wedi gweithredu fel sbardun a hyrwyddwr ar gyfer newid** ac wedi cyflwyno 'addysgeg unigryw' (*signature pedagogies*). Dylai rhwydweithiau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gan gynnwys Ymgynghorwyr Her y Consortia Addysg Rhanbarthol, ddarparu'r effaith sbarduno hon.
3. roedd PC wedi cefnogi **gwelliannau i gapasiti ysgolion** drwy wneud newidiadau i leoliadau ffisegol a chanolbwyntio ar ddysgu a chryfhau galluoedd dynol
4. yn benodol, roedd PC wedi **cefnogi datblygiad athrawon** i adeiladu rhwydweithiau newydd sy'n canolbwyntio ar ddysgu, sgiliau, gwybodaeth ac arferion
5. Roedd PC yn **argymell diwygio'r cwricwlwm**, neu gael newid yn y cyfeiriad pedagogaidd i ymagwedd fwy creadigol a oedd yn cynnwys gwaith ar draws yr ysgol gyfan ac/neu waith trawsgwricwlaidd, yn aml yn seiliedig ar faterion a phryderon bywyd go iawn
6. roedd PC yn **annog ysgolion i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned** drwy fanteisio ar brofiadau cadarnhaol y myfyrwyr a'u brwdfrydedd wedi hynny o ran dod â rhieni i'r ysgol, a hefyd trwy wneud cynigion deniadol i rieni ymwneud â chyfleoedd dysgu eu hunain
7. wrth annog **newid yn ethos yr ysgol**, roedd PC yn 'rhoi caniatâd' i ysgolion gofleidio dulliau creadigol a chreadigrwydd i ddysgu ac addysgu
8. drwy hyrwyddo **llais ieuenctid a chyfranogiad myfyrwyr**, rhoddodd PC fwy o lais i fyfyrwyr yn eu dysg eu hunain, gan greu profiad dysgu mwy personol.

4.25 Ar draws yr ymchwil, yr hyn a oedd i'w weld yn fwyaf arwyddocaol am arlwy diwylliannol a chelfyddydol PC oedd pa mor ddwys a pha mor hir yr oedd hi'n bosibl cymryd rhan, yn ogystal â'i weledigaeth rymus a rannwyd ar gyfer addysg, ei gefnogaeth i waith a barn broffesiynol athrawon, ei ddadl dros gyfranogiad a pherchnogaeth myfyrwyr, a'i addysgeg sy'n seiliedig ar y celfyddydau.

4.26 Mae canfyddiadau y gellir eu cymharu i'w gweld yn amlwg mewn ymchwil wedi'i godi o raglenni ATLAC a CCiSS yn yr Alban. Cydnabuwyd bod y ddwy raglen hyn wedi creu cwmpas ehangach ar gyfer creadigrwydd wrth gyflwyno gwersi, a hynny yn ei dro wedi cyfrannu at wybodaeth ddyfnach o bosibl o'r cwricwlwm i'r dysgwyr drwy ddysgu cydgysylltiedig.

**Is-amcan 3: cefnogi athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau**

4.27 Gwyddom drwy Lamont, Jeffes a Lord (2010) fod PC wedi esgor ar amryw o effeithiau i athrawon – yn eu hastudiaeth gelwir y rhain yn effeithiau personol, rhyngbersonol ac arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, ac effeithiau gyrfa. Roedd y rhain yn effeithiau sylweddol, nid yn unig yn arwydd o fwy o hyder wrth ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant ac arferion creadigol, ond hefyd, mewn ystyr ddyfnach, yn ailfywiogi eu hymarfer dysgu yn gyffredinol. I lawer, roedd adeiladu ymwybyddiaeth o ddysgu creadigol yn ffordd o ailgysylltu'r ysgogwyr sylfaenol sy'n gysylltiedig ag addysgu – addysgu'r plentyn cyfan, canolbwyntio ar gyrhaeddiad ond heb obsesiwn ar brofion neu arholiadau ac yn y blaen. Nodwyd canfyddiadau tebyg yn y gwerthusiad o'r rhaglen CCiSS yn yr Alban (Cyngor Celfyddydau'r Alban, 2010).

4.28 Mae ymchwilwyr eraill yn cytuno â Lamont et al, ond hefyd yn pwysleisio bod Partneriaethau Creadigol wedi'i gynllunio i esgor ar newidiadau parhaol mewn athrawon drwy "newid patrwm" eu hagweddau tuag at greadigrwydd mewn addysgu a dysgu. Roedd hyn yn seiliedig ar feithrin gallu unigol (h.y. datblygu sgiliau a doniau) yn ogystal â newidiadau sefydliadol i ethos yr ysgol, addysgeg a'r cwricwlwm. Mae gan Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau amcanion clir ynghylch y mater penodol hwn.

4.29 Roedd cynyddu creadigrwydd athrawon hefyd yn gysylltiedig ag effeithiau ehangach, gan gynnwys boddhad swydd, hunanhyder a chymhelliant. Roedd datblygiad athrawon o fewn PC yn fwy na datblygiad proffesiynol yn unig ac er ei fwyn ei hun – mae'n ymwneud â newidiadau mawr yn y sefydliad a'r athrawon unigol ynddo.

4.30 Roedd Partneriaethau Creadigol yn cyfrannu drwy saith proses allweddol at ddatblygiad athrawon, a'r rhain wedi'u crynhoi gan Thomson et al (2014):

1. roedd PC yn rhoi'r **adnoddau i athrawon ennill sgiliau, syniadau, technegau a chysylltiadau newydd**. Bydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ceisio gwneud hyn trwy sefydlu rhwydweithiau wyneb-yn-wyneb a rhithwir newydd
2. roedd PC yn **ysgogi athrawon i fabwysiadu dulliau creadigol** drwy roi profiad gwirioneddol o ddulliau creadigol ar waith iddynt hwy, nid i'w myfyrwyr yn unig. Bydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ceisio gwneud hyn drwy feithrin cysylltiadau agosach rhwng athrawon, gweithwyr proffesiynol creadigol ac artistiaid drwy weithgareddau Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol pwrpasol
3. roedd PC **wedi cynnig cyfleoedd addysgu a dysgu newydd, creu arferion newydd ac annog athrawon i archwilio syniadau newydd**. Bydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn ceisio cyflawni hyn trwy fecanweithiau i gefnogi dysgu gan gymheiriaid; megis amser i ffwrdd wedi'i dalu i athrawon arweiniol
4. roedd PC wedi **darparu amser a lle i athrawon archwilio creadigrwydd ac i gynllunio ei integreiddio** i'w dull addysgol. Bydd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn gwneud hyn drwy gysylltiadau gydag Asiantiaid Creadigol a fydd yn gweithredu fel 'graean yn y wystrys' i hwyluso adfyfyrio a chynllunio
5. wrth ddarparu ac/neu gefnogi DPP, roedd PC wedi gallu **adeiladu repertoire addysgol creadigol yr athrawon**. Mae amcanion cynaliadwyedd hirdymor Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn arwydd o'i huchelgais i feithrin gwybodaeth sy'n eiddo i'r athrawon yn yr un modd

6. roedd PC yn annog newidiadau i ethos ysgolion drwy **greu ffocws ar rannu adnoddau a syniadau**, ac **ymgorffori agwedd gadarnhaol tuag at greadigrwydd mewn addysgu a dysgu**. Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi creu disgwyliadau o ddysgu o fewn ysgolion a rhyngddynt, a hynny wedi'i arwain gan gydweithwyr ac yn seiliedig ar ethos o rannu arfer gorau
7. roedd PC yn **annog ac yn galluogi gweithgareddau ysgol gyfan**, gan roi modd i staff gydweithio a rhannu. Bydd y pwyslais yn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ar gefnogaeth uwch arweinwyr a bydd cysylltiadau â Chynlluniau Gwella Ysgolion yn anelu at gyflawni effaith ysgol-gyfan debyg.

4.31 Mae rhywfaint o waith ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddysg athrawon (e.e. Galton, 2010). Ymddengys bod tri 'math' o ddysg athrawon:

1) pan fo athrawon yn cymryd y sgiliau a gynigid gan yr artistiaid ac wedyn yn gallu eu defnyddio, eu hunain, mewn ffordd ddigon tebyg
2) pan fo athrawon yn cymryd y sgiliau a gynigid ac yn gallu eu trosglwyddo i bynciau eraill tebyg
3) pan fo athrawon yn gallu deall yr egwyddorion addysgol a gynigid a defnyddio'r rhain fel sail i ddatblygu arferion newydd.

Roedd y posibilrwydd olaf (rhif 3) yn llawer llai cyffredin na'r ddau fath arall o ddysg athrawon.

4.32 Un rhaglen a ystyriwyd oedd wedi 'trawsnewid' athrawon oedd Rhwydwaith Perfformio'r Royal Shakespeare Company. Trwy'r rhaglen honno roedd athrawon allweddol yn cymryd rhan mewn rhaglen hirdymor oedd yn cefnogi ymarfer a datblygiad academaidd (Neelands, 2009; Thomson, Hall, Jones, & Franks, 2010).

4.33 Ar draws yr ymchwil, yn fwy cyffredinol, yr hyn a ymddengys yn bwysig oedd y berthynas hirdymor yr oedd yr Asiantiaid Creadigol a'r artistiaid wedi'i meithrin gydag athrawon ac arweinwyr ysgolion, perthynas o ymddiriedaeth a boddhad i'r ddwy ochr. Cafwyd ymrwymiad athrawon i'r rhaglen oherwydd fod PC 'ar eu hochr nhw' ac nid yno i farnu a gwerthuso. Ailganfu llawer o athrawon eu hymdeimlad o broffesiynoldeb gan werthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol o fewn eu hysgolion a thu hwnt (un enghraifft o gymuned o'r fath yw'r Rhwydweithiau Dysgu Creadigol yn yr Alban sy'n cael eu rheoli gan Addysg yr Alban/Education Scotland ac sydd am annog cydweithio ledled y sectorau Addysg, Diwylliant a Chymunedau).

4.34 Roedd athrawon wedi mwynhau'r her o ehangu eu gorwelion ac amser i archwilio a chymryd risgiau yn eu hymarfer eu hunain. Roedd y fframwaith newid a ddefnyddid gan PC a rheoli cyflymder y newid personol ynddo yn rhoi modd i athrawon ddysgu beth yr oedd ei eisiau a'i angen a gydag ymdeimlad cryf o berchnogaeth.

4.35 Roedd dysg athrawon, fodd bynnag, hefyd yn ddibynnol iawn ar y prosesau cyfan o newid yn yr ysgol ac arferion yr arweinyddiaeth (Thomson et al, 2009). Ar draws y rhaglen, roedd llawer iawn o amrywiaeth yng nghyfleoedd dysgu'r athrawon. Roedd y gwahaniaeth hwn yn achos pryder i PC ac felly ad-drefnwyd y rhaglen yng nghanol y 2000au yn dair haen o gyfranogiad ar ran yr ysgolion – gydag Ysgolion Creadigrwydd Cenedlaethol yn enghreifftiau 'goleudy' o newid a dysg athrawon/myfyrwyr.

**Casgliad**

4.36 Gyda'i gilydd, nid yw'n syndod bod ymchwil diweddar yn dangos i ni fod ystod o brosesau yn gysylltiedig â sicrhau llwyddiant yn ymwneud â gwell cyrhaeddiad trwy greadigrwydd, a bod y prosesau hyn yn datblygu dros amser ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd – pob un yn darparu momentwm ar gyfer y nesaf. Ymddengys bod Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi cynnwys ymwybyddiaeth o hyn drwy ddarparu arlwy DPP i athrawon a sicrhau bod mecanweithiau i artistiaid ddeall anghenion ysgolion yn well.

4.37 **Trwy'r holl grynodebau ysgrifenedig o amcanion a dulliau'r rhaglen, dywedir neu awgrymir yn glir iawn bod yna nifer o gamau 'creu amgylchiadau' i fynd trwyddynt cyn y caiff gwir werth yr addysgu a'r dysgu creadigol ei ddatgloi.**

4.38 Cadarnheir hyn yn sicr mewn canfyddiadau ymchwil. Er enghraifft, gwyddom:

- heb y prosesau ymgeisio a dethol cywir gall fod disgwyliadau gwahanol gan ysgolion ac artistiaid; mae hyn yn peryglu cynllunio prosiect
- heb brosesau cynllunio a chefnogaeth digonol, mae'n bosibl camddehongli addysgu creadigol, ac i ddeilliannau dysgu lacio neu ddatgysylltu o fewnbynnau creadigol, gan golli'r ymdeimlad o fwriad ac achosiaeth sy'n hanfodol i lwyddiant
- heb ddigon o arbenigedd allanol i gefnogi cyfnodau gweithredu, gall rhai o'r heriau addysgol sy'n codi o ddysgu creadigol fynd yn drech, gan arwain at ymddieithrio ar ran yr athrawon a'r artist yn cymryd drosodd

- heb ddigon o adfyfyrio a mecanweithiau ar gyfer rhannu dysgu, gellir colli llawer o'r ddealltwriaeth sy'n gallu arwain at newidiadau cynaliadwy mewn ymarfer
- heb ddeall y newid mewn diwylliant sy'n gysylltiedig â defnyddio dulliau creadigol wrth addysgu a dysgu, caiff amser annigonol ei roi yn ystod cyfnodau cynnar y rhaglen i ysgolion, athrawon a disgyblion greu normau newydd, a thrwy hynny beryglu'r amcanion hirdymor sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad
- heb ymrwymiad yr uwch arweinwyr, heb ddiwylliant o ddatblygu athrawon, heb fewnbwn o ansawdd uchel gan weithwyr proffesiynol creadigol, heb strategaethau creadigol i wella agwedd meddwl disgyblion tuag at ddysgu, mae'n annhebygol y cynhyrchir digon o fomentwm i gyflawni amcanion lefel uchel y rhaglen.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond mae'n cyfeirio at y gwersi sydd i'w tynnu o'r ymchwil ac, wrth gwrs, y peryglon i'w hosgoi.

4.39 Yr hyn a ymddengys yn glir o gynllun gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yw bod y materion hyn wedi cael sylw drwy ddyluniad y rhaglen. Yr hyn nad yw mor glir ar hyn o bryd yw beth fydd y cydberthynas rhwng pob un o amcanion y rhaglen dros amser, a beth fydd arwyddion allanol rhaglen iach i'r rheiny sy'n ei rheoli a'i gwerthuso wrth iddi ddatblygu.

4.40 Mae'n rhaid i ni ddeall yr hyn y dylem ddisgwyl ei weld chwe mis i'r rhaglen, yn hytrach na chwe blynedd yn ddiweddarach. Ni ddylem, er enghraifft, fod yn rhuthro i chwilio am arwyddion yr effeithiau ar gyrhaeddiad yn rhy fuan pan fo mathau eraill o ddangosyddion yn debygol o fod yn fwy arwyddocaol yn y camau cynnar ac a allai fod yn rhagflaenwyr pwysig i effeithiau diweddarach ar ddisgyblion.

# 5. Dyluniad y Rhaglen a'i Gweithredu

**Prif bwyntiau**

- Cyfanswm cyllideb y rhaglen yw ychydig dros £20 miliwn, a 46% wedi'i ddyrannu i'r maes Ysgolion Creadigol Arweiniol (YCA).
- Rhagwelir y bydd y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cefnogi tua thraean o ysgolion Cymru (darpariaeth ar gyfer cyfrwng-Cymraeg a'r Saesneg) dros 5 mlynedd.
- Dechreuodd y cyntaf o dri chylch y cynllun ym mis Medi 2015 gyda chymorth yn cael ei roi i 128 o ysgolion, sy'n cynrychioli 24.5% o'r targed 522 o ysgolion ar gyfer y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.
- Cyflwynwyd ceisiadau gan ysgolion ar gyfer Cylch 2 y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ym mis Ionawr a Chwefror i ddechrau ym mis Medi 2016.
- Sefydlwyd pedwar Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg ac mae eu rhaglenni gweithgarwch wrthi'n cael eu datblygu.
- Lansiwyd Cronfa Profi'r Celfyddydau yng nghanol mis Mawrth 2016, gan gyd-fynd â lansio'r Parth Dysgu Creadigol.
- Bydd yr Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol yn cael eu pennu a'u cydlynu drwy'r Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg, unwaith y byddant wedi rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith.

**Cyflwyniad**

5.1 Mae'r bennod hon yn gryno yn adolygu dyluniad a gweithredu'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gan amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn. Sonnir hefyd y rhagdybiaethau allweddol i'w hadolygu gan y gwerthusiad wrth iddo fynd rhagddo, ynghyd â'r dangosyddion perfformiad o ran cyflawni.

Dylid nodi bod y bennod hon yn seiliedig ar y sefyllfa fel yr oedd ym mis Ebrill 2016.

## Dyrannu Adnoddau


5.2 Mae cyllideb y rhaglen wedi'i dyrannu ar draws y meysydd gwahanol fel a ganlyn.

**Tabl 5.1: Cyfanswm Cost y Cynllun (Mai 2014 - Mehefin 2020)**

| | Dyraniad y gyllideb | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol | £9,264,455 | 46% |
| Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan | £5,793,533 | 29% |
| Traws-raglen, rheolaeth ganolog, porth ar-lein a chyllid wrth gefn | £5,133,030 | 25% |
| **Cyfanswm** | **£20,191,018** | **100%** |

5.3 Caiff y rhaglen ei rheoli gan dîm o fewn Cyngor Celfyddydau Cymru, dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogi. Mae'r adnoddau staff yn rhan o'r gyllideb rheolaeth ganolog ac mae'n cynnwys y tîm canolog a'r timau rhanbarthol. Cyflwynir strwythur tîm y rhaglen isod:

**Ffigwr 5.1: Strwythur y Tîm Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**



## Y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)

5.4 Rhagwelir y bydd y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (YCA) yn cefnogi tua thraean o ysgolion Cymru (darpariaeth ar gyfer cyfrwng-Cymraeg a'r Saesneg) dros oes 5 mlynedd y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Caiff ysgolion eu cefnogi am ddwy flynedd; felly, strwythur y rhaglen o fis Medi 2016 yw bod YCA Cylch 1 Blwyddyn 2 yn rhedeg yn gyfochrog ag YCA Cylch 2 Blwyddyn 1. Bydd hyn yn parhau nes o fis Medi 2017, bydd YCA Cylch 2 Blwyddyn 2 yn rhedeg yn gyfochrog ag YCA Cylch 3 Blwyddyn 1. Rhagwelir y bydd yna dair gylch ond roedd hyn yn cael ei adolygu ar adeg ysgrifennu.

5.5 Mae 1,564 o ysgolion cymwys yng Nghymru ar hyn o bryd;[7] felly, y nod yw ymgysylltu â 522 ohonynt fel Ysgolion Creadigol Arweiniol; fodd bynnag, gall ysgolion ymgeisio am y cynllun fel grwpiau neu fel ysgolion unigol. Cyfrifwyd y gyllideb ar sail y rhagolygon canlynol:

**Tabl 5.2: Nifer a ragwelir o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol**

| | Cohort 1af | 2il Cohort | 3ydd Cohort | Cyfanswm | % cyfanswm yr ysgolion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd Unigol | 53 | 120 | 86 | 259 | |
| Ysgolion Cynradd mewn Grwpiau Ysgolion Cynradd (3 ym mhob grŵp) | 9 | 60 | 45 | 114 | |
| Ysgolion Cynradd mewn Grwpiau Ysgolion Bwydo Uwchradd/Cynradd (2 ym mhob grŵp) | 20 | 40 | 30 | 90 | |
| Cyfanswm Ysgolion Cynradd | 82 | 220 | 161 | 463 | 32.6% |
| Ysgolion Uwchradd Unigol | 33 | 30 | 25 | 88 | |
| Ysgolion Uwchradd mewn Grwpiau Ysgolion Bwydo Uwchradd/Cynradd (1 ym mhob grŵp) | 10 | 20 | 15 | 45 | |
| Cyfanswm Ysgolion Uwchradd | 43 | 50 | 40 | 133 | 62.4% |
| Cyfanswm Ysgolion Unigryw | 125 | 270 | 201 | 596 | |

[7] Dyma gyfanswm mis Ebrill 2016 o ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig yng Nghymru. Rhestr gyfredol o ysgolion. Nid yw ysgolion annibynnol yn gymwys, a rhaid i unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) fod ynghlwm wrth ysgol i fod yn gymwys. Y rhai sy'n gymwys yw 'yr holl ysgolion uwchradd a chynradd a gynhelir gan awdurdod lleol ac a gynorthwyir gan wirfoddolwyr, gan gynnwys ysgolion arbenigol a chyfleusterau addysgu arbenigol o fewn ysgolion'.

### Y broses ymgeisio

5.6 Fel yr amlinellwyd eisoes yn y drafodaeth am y Theori Newid, mae ysgolion sy'n gwneud cais i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y maent yn dymuno mynd i'r afael â hwy drwy ddull creadigol o ddysgu. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol uwchradd yn dewis mynd i'r afael â chyrhaeddiad isel mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio ystod o dechnegau i ysgogi a chymell dysgwyr. Efallai y bydd ysgol gynradd am ddatblygu dulliau trawsgwricwlaidd arloesol i hybu sgiliau llythrennedd.

5.7 Mae'r dyluniad a'r broses sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r ymgeisio, dethol a recriwtio ysgolion yn hanfodol – er mwyn sicrhau bod materion a nodwyd gan ysgolion yn argyhoeddiadol ac yn unol ag amcanion cyffredinol yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Caiff ceisiadau Ysgolion Creadigol Arweiniol gan ysgolion eu gwirio gan dimau rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau eu bod yn gymwys. Nodir hefyd eu dangosyddion categoreiddio sylfaenol er mwyn sicrhau bod ystod dda o ysgolion yn cael eu rhoi ar y rhestr fer:

- y categoreiddio cefnogaeth i ysgolion[8]
- canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- nifer y disgyblion
- iaith Gymraeg ac/neu ysgol wledig.

5.8 Cynhelir cyfarfod safoni rhanbarthol ac ynddo mae cynrychiolwyr o'r Consortia Addysg Rhanbarthol (CARh) yn cyfarfod â staff cynllun YCA Cyngor Celfyddydau Cymru i gymedroli'r sgorio ac i asesu ceisiadau lleol, yn ogystal â defnyddio eu gwybodaeth bresennol o ysgolion i argymell, neu gynghori yn erbyn, eu cynnwys ar gyfer Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y cylch hwn. Gwneir y penderfyniad i ddyfarnu grant a'r cynnig terfynol mewn cyfarfod Panel Cenedlaethol, ac yno gellir hefyd argymell amodau ychwanegol i'r grant ar gyfer ceisiadau llwyddiannus. Mae'r Panel Cenedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a chynghorwyr allanol, yn ogystal â swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru.

[8] System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion– 3 lefel: Grŵp Safonau 1-4 (1 perfformiad cyffredinol da iawn & 4 yr angen mwyaf i wella perfformiad), Gallu i Wella A-D (A sydd â'r gallu mwyaf i wella eu hunain a D sydd sydd â'r gallu lleiaf i wella eu hunain). Yna caiff y rhain eu cyfuno i roi Categori Cefnogaeth i bob ysgol fel a ganlyn: Gwyrdd – ysgol hynod effeithiol – cefnogaeth leiaf; Melyn – ysgol effeithiol; Oren – angen gwella; a Choch – angen y gwelliant mwyaf – mwyaf o gefnogaeth.

5.9 Dyma'r meini prawf yr oedd y ceisiadau Ysgolion Creadigol Arweiniol yn chwilio amdanynt:

- ymrwymiad uwch reolwyr a'u gallu i ysgogi staff
- tystiolaeth o ddysgwyr yn cael rhan weithredol ynddo
- tystiolaeth o'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn bod yn rhan annatod o weledigaeth yr ysgolion a'u blaenoriaethau cynllun datblygu ysgol (CDY)
- tystiolaeth o gyfraniad at wella llythrennedd a rhifedd / lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- capasiti i gyflawni.

5.10 Mae cyfarfod cymedroli'r Panel Cenedlaethol hefyd yn ceisio:

- sicrhau cydbwysedd ar draws Cymru / y rhanbarthau
- sicrhau ystod dda o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- adlewyrchu anghenion ysgolion gwledig / cyfrwng Cymraeg
- edrych ar y flaenoriaeth a roddir i ysgolion sy'n wynebu heriau sylweddol.

**Rhoi ar waith**

5.11 Penodir 'Asiant Creadigol' sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i weithio gydag ysgolion a gefnogir, gan ddatblygu prosiect a fydd yn ymdrin â blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn. Ar y cam cynllunio hwn, caiff gweithgareddau ac Ymarferwyr Creadigol eu nodi, a chyflwynir Ffurflen Gynllunio i staff y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau i'w chymeradwyo. Mae'r gweithgaredd dysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r 'Ymarferydd Creadigol' yn digwydd yn nhymor y gwanwyn a bydd gwerthuso adfyfyriol mewnol ar y gweithgaredd yn cael ei wneud yn nhymor yr haf. Cefnogir ysgolion am ddwy flynedd – gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un fath â'r gyntaf, a blaenoriaethau a gweithgareddau wedi'u llywio gan y dysgu o'r flwyddyn gyntaf.

5.12 Caiff yr Asiantiaid Creadigol eu recriwtio a'u contractio i Gyngor Celfyddydau Cymru, tra caiff yr Ymarferwyr Creadigol eu nodi gan yr Asiantiaid Creadigol a'r ysgolion ac yna eu contractio yn uniongyrchol gan yr ysgol trwy eu dyfarniad grant Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dwyn ynghyd restr o Ymarferwyr Creadigol posibl o blith unigolion neu sefydliadau a gyflwynodd Datganiadau o Ddiddordeb. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn ardystio nac yn asesu'r datganiadau o ddiddordeb hyn. Nid oes rhaid i ysgolion ddewis o'r Gofrestr Diddordeb hon ond caiff ei darparu er cymorth. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y mae costau wedi'u dyrannu ar draws y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Tabl 5.3: Cost Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Mai 2014 - Mehefin 2020)**

| | Dyraniad y gyllideb | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| Grantiau i Ysgolion | £5,847,900 | 63% |
| Costau Asiantiaid Creadigol | £2,802,775 | 30% |
| Costau Uniongyrchol – Rhaglen DPP | £327,100 | 4% |
| Contract Allanol CCE - Ymgynghori, DPP a Chymorth i'r Rhaglen | £314,780 | 3% |
| **Cyfanswm – Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol** | **£9,292,555** | **100%** |

5.13 Disgrifir athrawon i fod yn ganolog i'r cynllun, gan greu partneriaeth ag 'Ymarferwyr Creadigol' i ddylunio a chyflwyno dulliau newydd ac i adfyfyrio ar eu hymarfer. Oherwydd hyn, rhagwelir y bydd trosglwyddo gwybodaeth yn digwydd a gwella/newid i ddulliau addysgu o ran yr ymarfer yn eu hystafell ddosbarth. Mae'r ymwneud cryf hwn gan athrawon yn ystod y cyfnodau gweithredu hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth gyda'r bwriad o'u helpu i feithrin hyder wrth gyflwyno'r celfyddydau a sgiliau creadigol newydd.

5.14 Er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cymryd perchnogaeth o'r broses wella, rhagwelir y bydd y rhaglen hefyd yn cael ei hymgorffori yng nghynllun gwella'r ysgol (CGY) – gan gytuno ar feini prawf meincnodi a chasglu data i ddangos tystiolaeth o effaith.

5.15 Gan y bydd artistiaid profiadol, yn gweithio fel Asiantiaid Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol, yn weithredol yn y broses o gyflwyno'r rhaglen, rhagwelir y bydd o ansawdd uchel ac yn sicrhau bod sgiliau / priodoleddau creadigol yn gatalyddion ar gyfer newid. Fodd bynnag, bydd prosesau recriwtio ac ymsefydlu effeithiol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod ansawdd yr artistiaid a'r Ymarferwyr Creadigol yn ddigon uchel i ychwanegu gwerth at brosiectau ac yn modelu'r priodoleddau a'r sgiliau creadigol y mae amcanion y rhaglen am eu meithrin.

5.16 Caiff yr ysgolion sy’n cymryd rhan eu cefnogi am o leiaf dwy flynedd er mwyn sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau dysgwyr; disgwylir y bydd y newidiadau yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer addysgu er mwyn creu effaith gynaliadwy. Dywedir bod cefnogaeth uwch reolwyr i ymgorffori’r ymyriad ym mholisi gwella’r ysgol gyfan yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad.

5.17 Gan fod disgwyliad clir wedi bod o’r cychwyn y bydd athrawon yn rhannu’r wybodaeth, y sgiliau a’r profiad a gânt o’r cynllun, o fewn eu hysgol a gydag ysgolion eraill, rhagwelir y bydd cryn effaith anuniongyrchol, gan helpu i wella ansawdd yr addysgu creadigol o fewn ysgolion a rhwng ysgolion.

**Cynnydd hyd yn hyn**

*Cylch 1*

5.18 Dechreuodd cylch cyntaf yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ym mis Medi 2015. Yr haf hwnnw, cafwyd 137 o geisiadau (gallai ysgolion ymgeisio fel grwpiau neu’n unigol) a chynigwyd 99 grant i gyfanswm o 130 o ysgolion. Tynnodd un ysgol yn ôl ym mis Hydref 2015 gan nodi rhesymau cymhleth yn ymwneud â straen mewnol, a gohiriodd ysgol arall tan Gylch 2 (Medi 2016) oherwydd fod ganddynt arolygiad Estyn ac ystyrient y byddai angen amser ac egni staff at hwnnw gan dynnu sylw oddi ar gynllunio eu prosiect. Mae’r 128 o ysgolion sy’n cymryd rhan yn cynrychioli 24.5% o’r targed o 522 o ysgolion ar gyfer y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gan y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tri chylch Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae hyn yn is na’r targed, er hynny mae ar yr un gwastad â phe cytunid i redeg pedair cylch.

5.19 Mae’r siart isod yn dangos pa mor gynrychioliadol yw ysgolion Cylch 1 yn ôl rhanbarth a math. Mae’n dangos bod ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) a Chanolbarth y De (CSC) yn cael eu tangynrychioli tra bod gorgynrychiolaeth o ysgolion y De Ddwyrain (EAS). Mae ysgolion cynradd yn cael eu tangynrychioli tra bod ysgolion uwchradd yn cael eu gorgynrychioli; fodd bynnag, mae hyn yn fwriadol gan fod cyllideb gweithredu’r cynllun yn Nhabl 4.2 uchod yn dangos bod y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn anelu at gyrraedd traean yr holl ysgolion cynradd (33%), ond bron i ddau draean yr holl ysgolion uwchradd (62%). Mae bron i draean o’r holl ysgolion arbennig yng Nghymru eisoes wedi cymryd rhan yn y cynllun yn y cylch cyntaf yn unig.

**Tabl 5.4: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 yn ôl Rhanbarth a Math**

| Consortia Addysg | Cynradd | Canol | Uwchradd | Arbennig | Cyfanswm | % y cyfanswm | YCA cylch1 | % yr YCA | gwahan. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GwE | 369 | 1 | 54 | 9 | 433 | 27.7% | 21 | 16.4% | **59%** |
| ERW | 429 | 3 | 61 | 10 | 503 | 32.2% | 44 | 34.4% | **107%** |
| CSC | 316 | 2 | 55 | 15 | 388 | 24.8% | 21 | 16.4% | **66%** |
| EAS | 199 | 1 | 35 | 5 | 240 | 15.3% | 42 | 32.8% | **214%** |
| Cymru | 1,313 | 7 | 205 | 39 | 1,564 | | 128 | | |
| % y cyfanswm | 84.0% | 0.4% | 13.1% | 2.5% | | | | | |
| YCA Cylch 1 | 82 | 1 | 33 | 12 | 128 | | | | |
| % yr YCA | 64.1% | 0.8% | 25.8% | 9.4% | | | | | |
| **Gwahan.** | **76%** | **175%** | **197%** | **376%** | | | | | |

5.20 Mae'r tabl canlynol yn dangos sut, yng Nghylch 1, y mae ysgolion cyfrwng Saesneg wedi'u gorgynrychioli fymryn er anfantais i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion Saesneg sydd â chryn dipyn o Gymraeg.

**Tabl 5.5: Pa mor gynrychioliadol yw Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 yn ôl iaith yr addysgu**

| | Cyfrwng Saesneg | Saesneg â chryn dipyn o Gymraeg | Cyfrwng Cymraeg[9] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 849 | 33 | 431 | 1,313 |
| Canol | 2 | 0 | 5 | 7 |
| Uwchradd | 147 | 9 | 49 | 205 |
| Cyfanswm | 998 | 42 | 485 | 1,525 |
| % y cyfanswm | 65.4% | 2.8% | 31.8% | |
| YCA Cylch1 | 91 | 3 | 34 | 128 |
| % yr YCA | 71.1% | 2.3% | 26.6% | |
| **Gwahaniaeth** | **109%** | **85%** | **84%** | |

[9] Mae cyfrwng Cymraeg yn cynnwys dwy ffrwd, a phob math o ysgolion dwyieithog

5.21 Mae pedair ysgol sy'n cymryd rhan yn **Ysgolion Llwybrau Llwyddiant**,[10] mae un yn **Ysgol Panel Ymarferwyr y Gweinidog**,[11] mae 15 yn **Ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm**[12] ac mae 21 yn **Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd**.[13] Efallai y bydd peth gorgyffwrdd pan fo ysgolion yn cymryd rhan mewn mwy nag un o'r cynlluniau hyn.

5.22 Mae'r holl Gydlynwyr Ysgol, a rhai athrawon, o bob ysgol neu grŵp o ysgolion, wedi mynychu cwrs hyfforddi deuddydd cynhwysfawr. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 300 o unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn 10 cwrs ar draws y rhanbarthau.

5.23 O ran Asiantiaid Creadigol, cafwyd 325 o geisiadau; rhoddwyd 64 o'r rhain ar y rhestr fer a'u gwahodd i fynychu hyfforddiant; hyfforddwyd 59 ohonynt yn un o'r tri chwrs dwys yn para pedwar diwrnod yng Nghaerdydd neu Wrecsam, a chafodd 48 o unigolion a fynychodd hyfforddiant eu paru ag ysgolion a'u contractio yn Asiantiaid Creadigol yn y flwyddyn gyntaf.[14] Mae nifer fach o Asiantiaid Creadigol hefyd wedi cael hyfforddiant pellach iddynt fedru rhoi hyfforddiant yn y dyfodol i Asiantiaid Creadigol posibl, Cydlynwyr Ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol. Mae staff y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhanbarthol hefyd wedi cynnal digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer Asiantiaid Creadigol.

5.24 O ran Ymarferwyr Creadigol, cafwyd 363 Datganiad o Ddiddordeb oddi wrth unigolion a sefydliadau sydd am gymryd rhan yng ngwaith prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r Gofrestr Diddordeb wedi'i rhannu ag Asiantiaid Creadigol er mwyn eu cefnogi hwy a'u hysgolion wrth ddewis ymarferwyr i gydweithio â nhw.

[10] Mae Ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn derbyn cyllid i gefnogi hunanwelliant yn gyflymach fel rhan o raglen Her Ysgolion Cymru.

[11] Mae Panel Ymarferwyr y Gweinidog yn cynnwys ymarferwyr mewn ysgolion, a'r rheiny mewn rôl ymgynghori a herio i'r Gweinidog o ran datblygu a gweithredu polisïau addysg Llywodraeth Cymru.

[12] Dewiswyd ysgolion Arloesi'r Cwricwlwm i weithio gydag arbenigwyr addysg Cymru a rhyngwladol i adeiladu fframwaith y cwricwlwm Cymreig newydd.

[13] Dewiswyd ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd i arwain datblygiad y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, sydd â'r nod o gefnogi gweithlu addysg proffesiynol a medrus iawn.

[14] Tynnodd chwech o unigolion yn ôl neu ei ohirio oherwydd newid yn eu hamgylchiadau; ni chafodd 5 eu paru ag ysgolion.

5.25 O’r Ymarferwyr Creadigol a gafodd eu contractio gan Ysgolion Creadigol Arweiniol, cafodd 98 o unigolion hyfforddiant yn un o’r pum sesiwn hyfforddi deuddydd a gynhaliwyd ledled Cymru a chaiff thri sesiwn hyfforddi arall eu cynnal yn Hydref 2016. Mae’r ysgolion a’r Asiantiaid Creadigol yn dewis ac yn contractio’r Ymarferwyr Creadigol yn uniongyrchol, ac mewn rhai achosion mae’r Ymarferwyr Creadigol eisoes yn hysbys iddynt ac efallai eisoes wedi gweithio yn yr ysgol o’r blaen. Nid yw pob un o’r 98 Ymarferydd Creadigol a gafodd hyfforddiant ar Gofrestr Diddordeb Ysgolion Creadigol Arweiniol.

5.26 Mae staff y rhaglen am adolygu’r broses a’r casglu data mewn perthynas ag Ymarferwyr Creadigol Blwyddyn 2. Maent yn ystyried a yw’r gweithgaredd hwn yn rhywbeth y gallai’r Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg ofalu amdano yn y dyfodol.

*Cylch 2*

5.27 Cyflwynwyd ceisiadau gan ysgolion ar gyfer Cylch 2 y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ym mis Ionawr a Chwefror i ddechrau ym mis Medi 2016, ac yn dilyn creu rhestr fer a safoni, cafodd cynigion grant eu gwneud ddiwedd mis Ebrill. Ar gyfer Cylch 2, derbyniwyd 210 o geisiadau Asiantiaid Creadigol, a 94 ohonynt wedi’u rhoi ar y rhestr fer; gwahoddwyd yr asiantiaid hyn i fynychu sesiynau hyfforddi dwys pedwar diwrnod yng Nghaerdydd, Abertawe neu Llandudno ym mis Mai. Mae tîm y rhaglen wedi lansio galwad agored am ragor o Ddatganiadau o Ddiddordeb gan Ymarferwyr Creadigol.

**Y data monitro sy’n cael ei gasglu**

5.28 Mae sicrhau ansawdd ledled y rhaglen yn bwysig er mwyn cael eglurder a chysondeb ar draws y timau cenedlaethol a rhanbarthol a chyda gweithwyr proffesiynol creadigol ac ysgolion, i osod safonau disgwyliedig ac i rannu’r arferion gorau. Mae’r elfennau sicrhau ansawdd yn cynnwys ffurflenni cyllideb, gwerthuso ac adolygu’r cynllunio prosiect yn cael eu rhoi i’r Ysgolion Creadigol Arweiniol a’u Hasiantiaid Creadigol, ac mae tîm y rhaglen wedi datblygu canllawiau Safonau Ansawdd. Mae sicrhau ansawdd hefyd yn cynnwys adolygiadau blynyddol yn ogystal ag ymweliadau gan swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru i ysgolion pan fo’r gwir weithgarwch gydag Ymarferwyr Creadigol ar y gweill, yn cynnwys, hefyd, Asiantiaid Creadigol a Chydlynwyr Ysgolion. Mae hyn yn rhoi modd cymharu’r wybodaeth yn y ffurflenni a gyflwynwyd i’r hyn sydd wir yn digwydd ar lawr gwlad.

5.29 Dylai'r dysgu a gwybodaeth o'r broses sicrhau ansawdd helpu i lywio hyfforddiant y dyfodol a chaiff ei fwydo yn ôl i Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

5.30 Bydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn defnyddio tymor yr haf i werthuso eu gweithgarwch. Dylai'r gwerthusiad hwn roi rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim cystal, yn ogystal â rhoi enghreifftiau o unrhyw fanteision neu heriau annisgwyl i'r cynllun, o ran y broses a'r effaith. Bydd y ffurflenni gwerthuso wedi'u llenwi yn dangos sut mae ysgolion, asiantiaid ac ymarferwyr yn monitro a gwerthuso eu gweithgareddau, ac yn tynnu sylw at unrhyw fylchau, arferion da a meysydd lle dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ymhellach arnynt.

5.31 Mae nifer a lefel y disgyblion sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn amrywio o ysgol i ysgol. Er mwyn monitro cynnydd a mesur effaith y rhaglen ar ddisgyblion, bydd yn rhaid cael cofrestrau o'r cyfranogwyr.

5.32 Er mwyn ystyried effeithiolrwydd y prosesau gweithredu a chyflenwi, bydd y gwerthusiad yn fras yn edrych ar y canlynol:

a) cwmpas – e.e. amrywiaeth o ysgolion a dysgwyr
b) cysyllteddau - e.e. mecanweithiau cymorth, partneriaethau, rhwydweithiau a mentrau cysylltiedig
c) cymharu ansawdd ac ymarfer - e.e. astudiaethau achos a chategorïau
d) ansawdd e.e. mewnbynnau, capasiti, galluogwyr, cynnwys a staff a dwyster y cymorth.

**Rhagdybiaethau**

5.33 Mae'r canlynol yn rhestr o'r rhagdybiaethau a nodwyd ym mhroses y rhaglen Theori Newid. Bydd y fframwaith gwerthuso yn manylu ynghylch sut y bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi a'u hadolygu yn barhaus:

a) bydd ysgolion eisiau cymryd rhan a byddant yn ymgeisio i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol
b) bydd gan ysgolion y gallu a'r cyfle i gymryd rhan yn y cynllun
c) bydd gan ysgolion y cymhelliant cywir dros wneud cais
d) mae gan ysgolion y wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i adnabod materion allweddol y gellir mynd i'r afael â nhw drwy ddull creadigol o ddysgu
e) gellir canfod Asiantiaid Creadigol sydd â'r casgliad cywir o sgiliau, eu recriwtio ac (os oes angen) eu datblygu

f) gellir canfod a recriwtio Ymarferwyr Creadigol sydd â'r casgliad cywir o sgiliau

g) gall Ymarferwyr Creadigol ac athrawon gydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd

h) bydd athrawon yn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol eisiau cymryd rhan yn y cynllun (efallai nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses sy'n gwneud cais)

i) mae gan athrawon y gallu a'r cyfle i gymryd rhan yn y cynllun – a yw'r awydd i gymryd rhan yn treiddio i lawr y tu hwnt i uwch reolwyr / y rhai sy'n gwneud cais am y cynllun?

j) mae dwy flynedd yn ddigon i sicrhau canlyniad cadarnhaol i ddysgwyr ac i sicrhau bod unrhyw newid a gynhyrchir yn dod yn rhan annatod o ddull gweithio'r athrawon ac o fewn yr ysgol.

k) bydd ysgolion yn datblygu strategaethau priodol er mwyn rhannu dysgu

l) ceir cefnogaeth uwch reolwyr mewn ysgolion, neu gellir datblygu'r gefnogaeth honno.

**Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)**

5.34 Mae Maes 2 yn cynnwys cyfres o ymyriadau ar wahân sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â materion penodol, er bod cysylltiadau rhyngddynt. Rhagdybiaeth allweddol yw bod cyfoeth o gyfleoedd celfyddydol o safon uchel eisoes ar gael ledled Cymru (yn seiliedig ar gasgliadau adroddiad yr Athro Smith). Mae Maes 2 wedi'i gynllunio i geisio sicrhau bod yr adnodd hwn wedi'i ledaenu'n ehangach ac yn fwy perthnasol i bob ysgol yng Nghymru er mwyn cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol. Mae Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan am ei gwneud yn haws i ysgolion gael mynediad at artistiaid proffesiynol a sefydliadau celf er mwyn gwella ac ategu'r addysgu yn yr ysgolion hyn. Mae dyraniadau'r gyllideb ar gyfer elfennau amrywiol maes hwn y rhaglen yn cael eu hamlinellu yn y tabl isod.

**Tabl 5.6: Cost Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Mai 2014 - Mehefin 2020)**

| | Dyraniad y gyllideb | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|
| Grantiau Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg | £3,480,000 | 60% |
| Cronfa Profi'r Celfyddydau | £2,000,000 | 35% |
| Contract Allanol - DPP | £110,333 | 2% |
| System Rheoli Cyllideb Cronfa Profi'r Celfyddydau | £93,200 | 2% |
| Cymorth Abl a Thalentog | £60,000 | 1% |
| Cymorth Gyrfaoedd yn y Diwydiannau Celf a Chreadigol | £50,000 | 1% |
| **Cyfanswm – Rhaglen Addysg a'r Celfyddydau** | **£5,793,533** | **100%** |

5.35 Dyrannwyd £600,000 at gost y porth ar-lein, y Parth Dysgu Creadigol, dros gyfnod y rhaglen, ond mae wedi'i gosod ar wahân i gyllideb Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan.

**Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg**

5.36 Sefydlwyd pedwar rhwydwaith rhanbarthol wedi'u trefnu ar sail yr un ffiniau â'r Consortia Addysg Rhanbarthol presennol, ac maent yn gweithio gydag ysgolion, y Consortia Addysg Rhanbarthol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y sectorau addysg, celf, creadigol, diwylliannol a threftadaeth. Eu bwriad yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion drwy adeiladu pontydd rhwng y sectorau addysg a'r celfyddydau.

5.37 Mae gweinyddwyr y rhwydweithiau fel a ganlyn:

- Rhwydwaith ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg y Gogledd: consortiwm dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint
- Rhwydwaith ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg Canol/De Cymru: consortiwm dan arweiniad Arts Active[15]
- Rhwydwaith ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg y Canolbarth a Gorllewin Cymru: consortiwm dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Rhwydwaith ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg y De-ddwyrain: consortiwm dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

[15] Mae'r Ymddiriedolaeth Arts Active yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi prosiectau ymgysylltu ag addysg, y gymuned a'r gynulleidfa o Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd yng Nghaerdydd. Nod y rhaglen Arts Active yw annog pobl, o'r ieuengaf i'r hynaf, i gymryd rhan a mwynhau gweithgareddau celfyddydol.

**Dyma gylch gwaith y rhwydweithiau rhanbarthol:**

a) casglu a lledaenu arferion gorau

b) sefydlu a chydlynu cyfleoedd rhwydweithio dysgu creadigol a'r celfyddydau (wyneb yn wyneb ac yn ddigidol), ar gyfer athrawon, artistiaid, sefydliadau celf a diwylliannol

c) darparu gwasanaeth 'brocera' rhwng ysgolion ac artistiaid a sefydliadau celf/diwylliannol

d) darparu cyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr celf i wella a theilwra eu darpariaeth i anghenion a blaenoriaethau ysgolion

e) darparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau

f) rheoli a chydlynu rhaglen 'Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol' (wedi'i chyflwyno isod).

*Cynnydd hyd yn hyn*

5.38 Mae sefydlu'r pedwar rhwydwaith ar y gweill; mae staff canolog y rhaglen wedi mynychu cyfarfodydd cychwynnol ac mae'r rhwydweithiau yn recriwtio eu cydlynwyr ac yn sefydlu grwpiau llywio.

*Rhagdybiaethau*

- Mae rhwydwaith rhanbarthol yn ddull effeithiol i ymgysylltu ag athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol.
- Mae'r athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol eisiau, ac yn gallu, cymryd rhan mewn rhwydwaith rhanbarthol.

**Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol**

5.39 Fel cyfle arall i fanteisio ar y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gall ysgolion enwebu uwch aelod o staff i rôl Hyrwyddwr Celf a Chreadigrwydd yr Ysgol. Y person hwn fydd y cyswllt rhwng eu hysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r rhwydwaith rhanbarthol. Bydd yr Hyrwyddwyr yn athrawon celf profiadol; felly, mae'n bosibl yn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol y gall yr hyrwyddwyr hyn fod yn Gydlynwyr yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd eu hysgolion yn cael eu hariannu i'w rhyddhau i dreulio cyfnodau byr o amser yn hyrwyddo arfer gorau, yn cefnogi eraill i fabwysiadu dulliau tebyg ac/neu ddod â phobl eraill i'w hysgol i

arsylwi a dysgu. Bydd artistiaid a'r sefydliadau celf/diwylliannol hefyd yn cael y cyfle i ymgymryd â'r rôl hon.

*Cynnydd hyd yn hyn*

5.40 Caiff yr Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol eu pennu a'u cydlynu drwy'r Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg, unwaith y byddant wedi rhoi eu cynlluniau cyflenwi a gweithredu ar waith.

*Rhagdybiaethau*

- Mae athrawon eisiau ymgymryd â'r rôl hon ac mae ganddynt y cyfle i wneud hynny (e.e. cânt eu rhyddhau gan eu hysgolion)
- Bydd ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ymgysylltu'n effeithiol â'r Hyrwyddwyr.

**Cronfa Profi'r Celfyddydau**

5.41 Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau i gael ei defnyddio i annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd un cam ymhellach' wrth archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Dylai'r cyfleoedd hyn fod â manteision penodol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig sydd â mynediad cyfyngedig i gymryd rhan yn weithredol yn y celfyddydau. Gellir defnyddio'r gronfa hon i gefnogi ymweliadau â lleoliadau, megis orielau a theatrau, er mwyn cyfoethogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth, neu ei defnyddio i gefnogi cydweithredu newydd ac arloesol rhwng ysgolion a sefydliadau celf a diwylliannol. Mae yna ddau linyn ariannu:

1. bydd y cynllun 'Ewch i Weld' yn galluogi rhagor o fyfyrwyr i fynychu perfformiadau, arddangosfeydd, ac i gael profiad o weithwyr proffesiynol y celfyddydau yn datblygu ac yn creu eu gwaith. Gall ysgolion wneud cais am grantiau bychain unigol o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol mewn orielau, theatrau, canolfannau'r celfyddydau a lleoliadau eraill, a gellir cynnig y grantiau hyn drwy gydol y flwyddyn. Gall Ysgolion Creadigol Arweiniol wneud cais am y grantiau hyn ar yr un pryd â'u grant Ysgolion Creadigol Arweiniol
2. bydd y cynllun 'Cydweithio Creadigol' yn dod ag ysgolion a sefydliadau diwylliannol at ei gilydd i weithio ar brosiectau arloesol a fydd yn para am hyd at un flwyddyn academaidd. Hanfod y gronfa hon yw arloesi, ac mae'n agored i ysgolion sydd am weithio yn barhaus ag artist neu sefydliad celf a diwylliant/treftadaeth. Dewisir y prosiectau hyn ddwywaith y flwyddyn ar gyfer grantiau o hyd at £25,000 – a'r grantiau cyntaf i'w dyfarnu ym mis Gorffennaf

2016. Bydd y grant yn ariannu hyd at 90% o gostau'r prosiect. Ni chaiff deiliaid grant byw y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol elwa o grant Cydweithio Creadigol.

*Cynnydd hyd yn hyn*

5.42 Cafodd Cronfa Profi'r Celfyddydau ei lansio yng nghanol mis Mawrth 2016, gan gyd-fynd â lansio'r Parth Dysgu Creadigol. Dyfarnwyd naw o grantiau 'Ewch i Weld' ym mis Ebrill a phedwar ym mis Mai 2016.

*Rhagdybiaethau*

- Bydd gan ysgolion ddiddordeb yn y cyllid sydd ar gael ac yn gallu gwneud cais am y cyllid hwnnw.
- Bydd digon o gyfleoedd priodol ar gael i ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

**Parth Dysgu Creadigol**

5.43 Mae'r Parth Dysgu Creadigol yn borth celfyddydau a dysgu creadigol ar-lein sydd wedi'i letya ar 'Hwb', sef llwyfan dysgu ar gyfer Cymru gyfan (http://hwb.wales.gov.uk/creativity).

5.44 Ystyrir bod gwella cyfathrebu ynghylch yr hyn sydd ar gael yn hollbwysig er mwyn ehangu mynediad. Cynlluniwyd y porth i gael ei ddefnyddio gan athrawon, dysgwyr, Ymarferwyr ac Asiantiaid Creadigol yn ogystal â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau celf, diwylliant a threftadaeth eraill. Mae'n hyrwyddo ac yn rhoi gwybodaeth am y Cynllun Dysgu Creadigol i ysgolion a'r sectorau celf, diwylliannol a threftadaeth gan arddangos arfer gorau drwy astudiaethau achos, cynnig adnoddau addysgu, offer cydweithio ar gyfer rhanddeiliaid y sector a chalendr digwyddiadau y gellir chwilio drwyddo. Bydd hefyd yn cynnal tudalennau ar gyfer y rhwydweithiau rhanbarthol.

**Ffigwr 5.2: Ciplun o'r Parth Dysgu Creadigol**




*Cynnydd hyd yn hyn*

5.45 Cafodd y Parth Dysgu Creadigol ei lansio ym mis Mawrth 2016 ac mae'n cael ei reoli gan yr Adran Addysg. Ychwanegir deunydd at y porth wrth iddo ddod ar gael.

*Rhagdybiaethau*

- Mae porth dysgu ar-lein yn ddull effeithiol o ymgysylltu ag athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol, gan gynnwys y rheiny nad ydynt (eto) wedi ymwneud â'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.
- Unwaith y byddent yn gwybod am yr adnodd, bydd athrawon, dysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau celf a diwylliannol eisiau, ac yn gallu, defnyddio'r Parth Dysgu Creadigol.

**Data monitro sy'n cael ei gasglu**

5.46 Roedd yr asiantaethau i weinyddu'r rhwydweithiau rhanbarthol wedi cyflwyno cyllidebau drafft gyda'u ceisiadau, ac maent wrthi'n datblygu cynlluniau cyflenwi a gweithredu manylach. Disgwylir iddynt fonitro eu gweithgareddau ac adrodd i dîm canolog y rhaglen. O ran y data a gasglwyd yn annibynnol gan fuddiolwyr y bydd y rhwydweithiau rhanbarthol yn ymgysylltu â nhw (athrawon, ysgolion, staff Consortia Addysg Rhanbarthol, awdurdodau lleol, artistiaid, a sefydliadau celf, creadigol, treftadaeth a diwylliannol), bydd angen triongli'r data hwn i brofi'r

rhagdybiaethau (bod rhannu'r hyn a ddysgir, rhwydweithio a broceriaeth yn golygu bod anghenion ysgolion a galluoedd sector y celfyddydau a'r sector diwylliannol yn cyd-redeg yn well â'i gilydd).

5.47 Adroddir am ddata monitro Cronfa Profi'r Celfyddydau a'i buddiolwyr i dîm canolog y rhaglen. Bydd data dadansoddi o'r Parth Dysgu Creadigol yn rhoi modd monitro rhai meysydd gweithgarwch yn ymwneud ag elfen hon y rhaglen. Wrth i ddulliau yn ymwneud â Chymorth Abl a Thalentog a Chymorth Gyrfaoedd yn y Diwydiannau Celf a Chreadigol gael eu datblygu, felly hefyd dylid monitro prosesau ac effaith y gweithgareddau hyn.

5.48 Bydd y Fframwaith Gwerthuso yn cyflwyno dull o werthuso'r rhaglen o safbwynt y cyflenwi a gweithredu. Bydd yn dangos sut y mae, neu bydd, cynnydd ar weithgareddau yn cael ei fonitro. Isod mae enghraifft fras o hyn ar gyfer maes gweithgarwch Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Manylir yn y fframwaith gwerthuso ynghylch y mesurau a'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth o gynnydd yn y dangosyddion hyn.

**Tabl 5.7: Dangosyddion gweithredu Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan**

| Gweithgarwch | Dangosyddion | Mesurau |
|---|---|---|
| Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg | • Mae Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg yn adeiladu pontydd effeithiol rhwng y sectorau addysg a'r celfyddydau<br>• Mae Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg yn cynnal nifer briodol o ddigwyddiadau a gweithgareddau.<br>• Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau yn addas ac yn fuddiol i'w cynulleidfa darged | • Nifer digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith sy'n cael eu cynnal<br>• Niferoedd yn cymryd rhan ac ailadrodd digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith<br>• Cyfranogwyr yn nodi bod digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith yn ddefnyddiol (bwriad i gymryd rhan eto a rhannu dysgu) |
| Cronfa Profi'r Celfyddydau | • Mae ysgolion yn cael eu hannog i roi cyfleoedd i ddysgwyr 'fynd un cam ymhellach' wrth iddynt archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol<br>• Bydd cyfleoedd a ariennir yn rhoi budd penodol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig sydd â mynediad cyfyngedig i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau | • Nifer, ansawdd ac amrywiaeth ceisiadau i'r gronfa a pha mor gynrychioliadol ydynt<br>• Ychwanegedd a gwerth ychwanegol gweithgareddau a ariennir<br>• Proffil y dysgwyr sy'n elwa<br>• Y graddau y mae gweithgareddau a ariennir yn gosod cynsail neu'n gweithredu fel bachyn i brif-ffrydio gweithgareddau yn y dyfodol |
| Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol | • Mae staff uwch yr ysgol yn dod yn Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol ac yn cadw'r rôl hon dros amser<br>• Maent yn cael eu rhyddhau o'r ysgol i dreulio cyfnodau byr o amser yn hyrwyddo arfer gorau, yn cefnogi eraill i fabwysiadu dulliau tebyg, ac/neu yn dod â phobl eraill i'w hysgol i arsylwi a dysgu<br>• Mae artistiaid ac asiantiaid celfyddydol hefyd yn dod yn Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol | • Nifer, ansawdd ac amrywiaeth ceisiadau Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol a pha mor gynrychioliadol ydynt<br>• Oriau gweithgarwch a chyrhaeddiad Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol<br>• Barn buddiolwyr ynghylch arfer gorau hyrwyddo gwerth Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol |

| Gweithgarwch | Dangosyddion | Mesurau |
|---|---|---|
| Parth Dysgu Creadigol | • Mae'r Parth Dysgu Creadigol yn hyrwyddo ac yn recriwtio rhanddeiliaid i'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau<br>• Mae'r Parth Dysgu Creadigol yn gyfrwng effeithiol, rhwydd ei ddefnyddio ar gyfer:<br>    ○ Gwybodaeth ar gyfleoedd i ysgolion ym mhob agwedd ar y cynllun Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau gan gynnwys DPP i athrawon ac ymarferwyr celf<br>    ○ Arddangos arferion da<br>    ○ Adnoddau ar gyfer athrawon, asiantiaid ac ymarferwyr creadigol<br>    ○ Offer cydweithredu ar gyfer athrawon, dysgwyr a sefydliadau celf / pobl broffesiynol | • Traffig i'r wefan ac ystadegau lawrlwytho / lanlwytho (dadansoddeg) e.e. yn ôl daearyddiaeth a defnyddwyr unigryw<br>• Nifer y rhanddeiliaid Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a anogwyd i gymryd rhan yng ngweithgareddau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau drwy'r Parth Dysgu Creadigol<br>• Nifer y rhanddeiliaid Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau sy'n dweud eu bod yn mynd i'r Parth Dysgu Creadigol yn rheolaidd<br>• Nifer a math y rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau eraill Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau sy'n mynd i'r Parth Dysgu Creadigol<br>• Barn am effeithiolrwydd, defnyddioldeb a rhwyddineb defnyddio Parth Dysgu Creadigol |
| Arall: cymorth Abl a Thalentog; Cymorth Gyrfaoedd yn y Diwydiannau Celf a Chreadigol | • Mae darpariaeth effeithiol, bwrpasol, o weithgareddau a dulliau sgiliau dysgu creadigol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog<br>• Caiff dysgwyr fynediad i gymorth gyrfaoedd cyfredol ac o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol | • I'w cadarnhau wrth i elfennau hyn y rhaglen gael eu datblygu |

## 6. Cwestiynau Gwerthuso Allweddol

6.1 Mae Cwestiynau Gwerthuso yn ei gwneud yn haws penderfynu pa ddata i’w gasglu, sut i’w ddadansoddi, a sut i adrodd amdano. Nid yw’r rhain yn gwestiynau i’w gofyn mewn cyfweliad neu holiadur ond yn gwestiynau ymchwil lefel uchel a fydd yn cael eu hateb drwy gyfuno data o sawl ffynhonnell.

6.2 Mae’r cwestiynau gwerthuso allweddol ar gyfer yr astudiaeth hon wedi cael eu codi o’r trafodaethau a gyflwynir ym mhenodau eraill yr adroddiad hwn. Y cwestiynau hyn fydd sail y fframwaith gwerthuso a ddatblygir yn ystod cam nesaf yr astudiaeth. Bydd y fframwaith hwnnw yn cynnwys y dangosyddion a ddefnyddir i helpu i ateb y cwestiynau gwerthuso (fel y trafodir yn yr adroddiad hwn) yn ogystal â manylion ynghylch sut a phryd y bydd y data/tystiolaeth yn cael eu casglu a’u dadansoddi.

**Rhan 1: Gwerthuso Canlyniadau**

6.3 Sut, os o gwbl, y mae dysgwyr wedi newid o ganlyniad i gymryd rhan yng ngweithgareddau Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau (Maes 1 a 2)?

a) Newidiadau mewn ymwybyddiaeth, diddordeb ac awydd
b) Newidiadau mewn gwybodaeth a galluoedd
c) Newidiadau mewn ymddygiad ac agwedd
d) Newidiadau mewn perfformiad
e) Pa mor gynaliadwy yw’r newidiadau a nodwyd?
f) Beth yw’r oblygiadau canlyniadol, os bydd unrhyw rai, i’r newidiadau a nodwyd?
g) Sut mae newidiadau yn y grŵp ymyriad yn cymharu â’r rheiny mewn grŵp gwrthffeithiol?

6.4 Sut, os o gwbl, y mae athrawon wedi newid o ganlyniad i gymryd rhan yng ngweithgareddau Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau? I’w ddadansoddi mewn perthynas â Meysydd 1 a 2, fel uchod.

6.5 Sut, os o gwbl, y mae ysgolion wedi newid o ganlyniad i gymryd rhan yng ngweithgareddau Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau? I’w ddadansoddi mewn perthynas â Meysydd 1 a 2, fel uchod.

6.6 Sut, os o gwbl, y mae artistiaid a sefydliadau celf wedi newid o ganlyniad i gymryd rhan yng ngweithgareddau Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau? I’w ddadansoddi mewn perthynas â Meysydd 1 a 2, fel uchod.

6.7 Pa ffactorau allanol (sydd y tu hwnt i reolaeth Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau) sydd wedi dylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y canlyniadau a gynhyrchwyd gan yr ymyriad?

6.8 A yw cyflawniadau a llwyddiannau gwahanol elfennau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn amrywio o ran y newidiadau a nodwyd i ddysgwyr, athrawon ac ysgolion? Os ydynt, pam?

6.9 A yw cost-effeithiolrwydd[16] gwahanol elfennau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn amrywio? Os ydyw, pam?

6.10 Sut mae cyflawniadau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (a'i elfennau unigol) yn cymharu â rhaglenni tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a ledled y byd?

**Rhan 2: Gwerthuso'r Broses**

6.11 Gan brofi'r rhesymeg, a oes angen/galw sy'n parhau am y math hwn o ymyriad?

6.12 Sut mae'r cymorth a ddarperir gan Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn wahanol i gymorth arall sydd ar gael i'r grwpiau buddiolwyr (os oes rhai o gwbl)? Rôl, proses, cwmpas a nifer y gweithgareddau a wneir – profi'r gwerth ychwanegol.

- Maes 1 – Ysgolion Creadigol Arweiniol
- Maes 2 – Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (pob elfen ar wahân).

6.13 Beth yw cryfderau a gwendidau[17] model Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau *fel y cafodd ei ddylunio*?

- Y cyfan – gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru fel y 'corff arweiniol'
- Maes 1 – Ysgolion Creadigol Arweiniol
- Maes 2 – Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (pob elfen ar wahân).

6.14 Beth yw cryfderau a gwendidau'r model Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel y cafodd ei weithredu a'i gyflenwi?

---

[16] Mae dadansoddiad cost-effeithiolrwydd (CEA) yn fath o ddadansoddiad sydd yn cymharu costau cymharol a chanlyniadau (effeithiau) dau ddull gweithredu neu fwy (e.e. cost fesul unigolyn o gael swydd, yn erbyn y gost o beidio â chael swydd). Mae'n bwysig nodi bod dadansoddi cost-effeithiolrwydd yn wahanol i'r dadansoddi cost a budd (CBA) mwy cymhleth, sy'n mynd ymhellach drwy hefyd bennu gwerth ariannol i'r canlyniad (e.e. gwerth unigolyn yn cael swydd). Cyfeiriad: Llyfr Magenta

[17] Pethau y mae gan y prosiect rywfaint o ddylanwad neu reolaeth drostynt.

- Y cyfan – gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru fel y ‘corff arweiniol’
- Maes 1 – Ysgolion Creadigol Arweiniol
- Maes 2 – Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (pob elfen ar wahân).

6.15 Pa ffactorau allanol, os o gwbl, sydd wedi dylanwadu ar weithredu Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau? Boed yn gadarnhaol neu’n negyddol.

6.16 A oes unrhyw gyfleoedd ac/neu fygythiadau[18] yn ymwneud â dyluniad neu weithredu Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau?

6.17 Beth, os unrhyw beth, yw etifeddiaeth y model a ddefnyddiwyd i weithredu Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau?

6.18 O ran cynnal y gweithgarwch yn y cyfnod ôl-ymyriad, pa mor gynhwysfawr/effeithiol yw’r ‘cynlluniau ymadael’ sydd ar waith ar gyfer gweithgareddau wedi’u hariannu gan Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau?

[18] Pethau y mae gan y prosiect ychydig os unrhyw reolaeth neu ddylanwad drostynt ond sydd/fydd yn cael dylanwad uniongyrchol arno.

# 7. Casgliad a Chamau Nesaf

## Casgliad

7.1 Mae'r adroddiad cyntaf hwn ar y gwerthusiad o'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cyflwyno'r Theori Newid sy'n gysylltiedig â dau faes y rhaglen ac mae'n amlinellu'r newidiadau a ragwelir ymhlith rhanddeiliaid y rhaglen sydd i'w harsylwi a'u mesur.

7.2 Ymchwiliwyd i resymeg y rhaglen trwy adolygu'r polisi, ynghyd â'r llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â rhaglenni tebyg. Daethpwyd i'r casgliad fod yna nifer o gamau 'creu amgylchiadau' i fynd drwyddynt cyn y gellir datgloi gwir werth addysgu a dysgu creadigol, gan roi sylw i'r ffaith y dylid ystyried risgiau a chynlluniau wrth gefn drwy broses werthuso ffurfiannol. Rhaid i ni ddeall yr hyn y dylem ddisgwyl ei weld chwe mis i'r rhaglen, yn hytrach na chwe blynedd yn ddiweddarach. Ni ddylem, er enghraifft, fod yn rhuthro i chwilio am arwyddion yr effeithiau ar gyrhaeddiad yn rhy fuan: mae mathau eraill o ddangosyddion yn fwy arwyddocaol yn y camau cynnar a gallent fod yn rhagflaenwyr pwysig i effeithiau diweddarach ar ddisgyblion.

7.3 Mae trosolwg o ddyluniad a gweithredu'r rhaglen yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ac mae'n tanlinellu'r rhagdybiaethau a wnaed – a bydd angen i'r gwerthusiad adolygu hyn.

## Camau nesaf

*Datblygu'r Fframwaith Gwerthuso*

Mae'r fframwaith gwerthuso yn rhoi'r strwythur ar gyfer y gwerthuso a bydd yn manylu ar y canlynol:

a) cwestiynau i'w hateb (cwestiynau'r gwerthusiad)
b) tystiolaeth i'w chasglu (dangosyddion)
c) sut y caiff ei chasglu (dull)
d) pryd y caiff ei chasglu (dull)
e) sut y bydd yn cael ei dadansoddi (dull).

Mae adolygu data monitro'r rhaglen yn mynd rhagddo wrth i elfennau'r rhaglen gael eu sefydlu a data yn dod i law.

### Amserlen y Gwerthusiad

7.4 Rhagwelir y bydd cam nesaf y gwerthusiad fel a ganlyn.[19]

1. Y Fframwaith Gwerthuso (Mai - Mehefin 2016)
2. Amserlen fanwl y gweithgareddau gwerthuso (Mehefin - Gorffennaf 2016)
3. Datblygu Offer Ymchwil Gwerthuso ac addasu i ddata, ffurflenni a mecanweithiau casglu data y rhaglen sy'n bodoli eisoes, lle bo'n briodol (Gorffennaf – Awst 2016)
4. Gweithgareddau gwerthuso'r broses (yn parhau)
   a. Mapio a phroffilio disgyblion ysgolion, asiantiaid creadigol ac ymarferwyr creadigol sy'n cymryd rhan
   b. Cwmpas – amrywiaeth yr ysgolion a dysgwyr
   c. Cysyllteddau – mecanweithiau cymorth, partneriaethau, rhwydweithiau a mentrau cysylltiedig
   d. Cymharu ansawdd ac ymarfer – astudiaethau achos a chategorïau
   e. Ansawdd – mewnbynnau, capasiti, galluogwyr, cynnwys a staff a dwyster y cymorth.
5. Gweithgareddau gwerthuso effaith (yn parhau)
   a. dangosyddion dysgwyr
   b. dangosyddion athrawon
   c. dangosyddion ysgolion
   d. dangosyddion artistiaid a sefydliadau celf
   e. dangosyddion rhanddeiliaid (anuniongyrchol) eraill (Consortia Addysg Rhanbarthol, ALLau, canolfannau HCA ac ati).

7.5 Bydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn defnyddio tymor yr haf i werthuso eu gweithgarwch. Dylai'r gwerthuso hwn roi rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim cystal, yn ogystal â rhoi enghreifftiau o unrhyw fanteision neu heriau annisgwyl i'r cynllun, o ran y broses a'r effaith. Bydd y ffurflenni gwerthuso wedi'u llenwi yn dangos sut mae ysgolion, asiantiaid ac ymarferwyr yn monitro a gwerthuso eu gweithgareddau, ac yn tynnu sylw at unrhyw fylchau, arferion da a meysydd lle dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ymhellach arnynt.

[19] Gall amserlenni newid

7.6 Mae'n debygol y bydd y rhaglen yn cymryd rhan yn astudiaeth ymchwil OECD ar ddysgu creadigol mewn ysgolion. Mae'r astudiaeth yn ymwneud â datblygu dulliau addysgu ac arferion dysgu creadigol mewn ystafelloedd dosbarth, ac mae'n treialu profion mewn creadigrwydd (meddwl cydgyfeiriol a dargyfeiriol). Er y byddai cymryd rhan yn llawn yn yr astudiaeth o bosibl yn galw am ormod o adnoddau, efallai y byddai cyfleoedd i ymwneud â'r astudiaeth drwy ddefnyddio is-gasgliad o ysgolion. Gall profion yr OECD helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu offer mwy soffistigedig ar gyfer profi 'Pum Arfer Creadigol y Meddwl'.

**Grŵp Llywio Gwerthuso**

7.7 Sefydlwyd grŵp llywio gwerthuso pwrpasol ar gyfer y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau; bydd yn cyfarfod bob chwarter. Bydd cyfarfod Mehefin 2016 yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- cyflwyno'r fframwaith gwerthuso drafft, gan gynnwys cynlluniau manwl ar gyfer casglu a dadansoddi data
- tynnu sylw at unrhyw fylchau data (dangosyddion) a thrafod cynnydd sy'n gysylltiedig â llenwi'r bylchau hyn
- cyflwyno rhestr ddrafft o weithgareddau gwerthuso
- nodi offer ymchwil i'w ddatblygu ar gyfer y gwerthuso ac amserlenni ar gyfer unrhyw addasiadau i ffurfiau a dulliau casglu data yn y rhaglen bresennol.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch integreiddio posibl gydag ymchwil OECD a nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer cyfuno gofynion a phrosesau casglu data Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'r OECD.

## Atodiad 1: Amcanion y Gwerthusiad

Dyma amcanion y gwerthusiad:

1) Cynllunio a mynd ati i gasglu data sy’n dangos y newid mewn perthynas â’r ystod o ganlyniadau a buddiolwyr y gellir eu priodoli i’r ymyriadau sy’n ffurfio’r rhaglen.

2) Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac ysgolion sy’n cymryd rhan er mwyn sicrhau bod casglu data yn ymarferol ac yn cael ei wneud yn systematig.

3) Datblygu model rhesymeg a theori newid ar gyfer dau faes y rhaglen.

4) Defnyddio’r holl ddata perthnasol, a gasglwyd gan ysgolion a chan yr Adran Addysg a Sgiliau, sydd ar gael.

5) Adolygu a gwneud argymhellion ar ddyluniad/gweithredu’r rhaglen er mwyn hwyluso cynllunio gwerthuso cadarn ar effaith yn enwedig mewn perthynas â sefydlu un neu fwy o grwpiau gwrthffeithiol.

6) Adolygu’r data monitro – ynghylch buddiolwyr a grwpiau gwrthffeithiol – wedi’i gasglu at ddibenion gwerthuso, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau er mwyn sicrhau bod y data yn addas at ddibenion y gwerthusiad.

7) Dadansoddi’r data drwy ddefnyddio technegau priodol ar gyfer gwerthusiadau cadarn ar yr effaith a’r broses.

8) Llunio adroddiadau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) i’w cyhoeddi gyda phrif ganfyddiadau.

## Atodiad 2: Cyfeiriadau Adolygu Llenyddiaeth a Darllen Pellach

Catterall, J. S. a Waldorf, L. (1999) Chicago Arts Partnerships in Education: Summary Evaluation yn EB Fiske (gol.) (1999) Champions of Change: the Impact of the Arts on Learning Washington DC: Council of Chief State School Officers

Partneriaethau Creadigol / Creative Partnerships (2007) This much we know: Approach and impact. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Partneriaethau Creadigol / Creative Partnerships (2007) This much we know: Research digest 2002-2006. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Partneriaethau Creadigol / Creative Partnerships (2007) This much we know: School case studies. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Partneriaethau Creadigol / Creative Partnerships (2007) Thinkpiece: The challenge of defining impact. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2009) Creative Partnerships: Changing young lives. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2009) Research digest: 2006-2009. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2009) School case studies: 2006-2009. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2009) Thinkpiece: Introducing the Education Charter. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2012) Creative Partnerships: Changing young lives 2012. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2012) Research digest: 2006-2012. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg / Creativity, Culture and Education (2012) School case studies: 2006-2011. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Cooper, L., Benton, T. & Sharp, C. (2011) The Impact of Creative Partnerships on Attainment and Attendance in 2008-9 and 2009-10. Slough: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

Das, S. & Gray, D. (2008) Arts as a Tool for Learning Across the Curriculum (ATLAC) Interim Report. Yr Ysgol Addysg, Prifysgol Aberdeen

Durbin, B., Rutt, S., Saltini, F., Sharp, C., Teeman, D. & White, K. (2010) Impact of Creative Partnerships on young peoples' behaviour and attainment. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

Eames, A., Benton, T., Sharp, C. & Kendall, L. (2006) The longer term impact of Creative Partnerships on the attainment of young people. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

Eames, A., Benton, T., Sharp, C. & Kendall, L. (2008) The impact of Creative Partnerships on Pupil Behaviour. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

Addysg yr Alban / Education Scotland (2013) Creativity Across Learning 3-18

Fautley, M., Gee, M., Hatcher, R. & Millard, E. (2008) The Creative Partnerships Curriculum Projects at Kingstone School Barnsley and Queensbridge School Birmingham. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Kendall, L., Morrison, J., Yeshanew, T. & Sharp, C. (2008) The longer-term impact of Creative Partnerships on the attainment of young people: Results from 2005 and 2006. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

Lamont, E., Jeffes, J. & Lord, P. (2010) Evaluation of the nature and impact of the Creative Partnerships programme on the teaching workforce. Slough: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

McLellan, R., Galton, M., Steward, S. & Page, C. (2012) The impact of creative partnerships on the wellbeing of children and young people. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Parker, D. (2013). Creative Partnerships in practice. developing creative learners. Llundain: Bloomsbury.

Cyngor Celfyddydau'r Alban (2010) Evaluation of the Cultural Co-ordinators in Scottish Schools Programme. Lluniwyd gan ERS Research and Consultancy ar gyfer Cyngor Celfyddydau'r Alban

Seagraves, L., Soden, R. a Coutts, G. (2008) Arts Across the Curriculum: Enhancing Pupil Learning, The Pupil Perspective. Papur a gyflwynwyd i Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain, Prifysgol Heriot-Watt, Caeredin, 3-6 Medi 2008 Prifysgol Strathclyde.

Thomson, P, Coles, R., Hallewell, M a Keane J. (2014) A critical review of the Creative Partnerships archive: How was cultural value understood, researched and evidenced? Nottingham: Prifysgol Nottingham

## Darllen Ychwanegol

Safford, K. & O'Sullivan, O. (2007) 'Their learning becomes your journey': Parents respond to Children's work in Creative Partnerships. Canolfan Llythrennedd mewn Addysg Gynradd/ Centre for Literacy in Primary Education

Sheikh, S. (2013) Evaluation of CCE/NCB Arts and Cultural Activities Project with Looked After Children. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Sheikh, S. & Sarwar, S. (2012) Evaluation of Sacred Spaces Programme. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Young, S. (2010) Arts Explorers Pathfinders evaluation report. Leeds: Cape UK

**Dysgu a dysgu creadigol**

Caudle, J. & Osborne, L. (2006) Beach classrooms. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Craft, A., Burnard, P., Grainger, T. & Chappell, K. (2006) Progression in Creative Learning. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Heath, S. B., Paul-Boehncke, E., & Wolf, S. (2005) Made for each other: Creative sciences and arts in the secondary school. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Lord, P., Jones, M., Harland, J., Bazalgette, C., Reid, M., Potter, J. & Kinder, K. (2007) Special effects: The distinctiveness of learning outcomes in relation to moving image education projects. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Pollmuller, B. & Sercombe, M. (2007) Animation in education: Its impact on learning, literacy and creativity. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Heath, S.B., & Wolf, S. (2004) Visual learning in the community school. Llundain: Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Partneriaethau Creadigol

Safford, K. & Barrs, M. (2005) Creativity and literacy: Many routes to meaning. Children's language and literacy learning in creative arts projects. Llundain: Partneriaethau Creadigol

Sefton-Green, J. (gol.) (2008) Creative Learning. Llundain: Partneriaethau Creadigol

Spencer, E., Lucas, B. & Claxton, G. (2012) Progression in creativity: Developing new forms of assessment – Final research report. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Tims, C. (gol.) (2010) Born Creative. Llundain: DEMOS

**Schools: ethos, wellbeing and processes of school change**

Bragg, S. & Manchester, H. (2011) Creativity, school ethos and the Creative Partnerships programme: Final report of the project. Y Brifysgol Agored

Bragg, S., Manchester, H. & Faulkner, D. (2009) Youth voice in the work of Creative Partnerships. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Centrifuge Consulting (2012) Evaluation of the wider impacts of the Schools of Creativity Programme. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

David Wood Consultants (2010) Creative Partnerships Change Schools Programme Evaluation. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

David Wood Consultants (2012) Creative Partnerships Change Schools Programme Synoptic Evaluation 2011. Newcastle: Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg

Burnaford, G. (2006) Moving Toward a Culture of Evidence: Documentation and Action Research inside CAPE Veteran Partnerships Veteran Partnerships Report 2005 – 2006

Hutching. R. (2015) Adroddiad Fframwaith Ansawdd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru. ArtWorks Cymru

Dha & the Institute for Cultural Practices (2015) Paul Hamlyn Foundation ArtWorks Evaluation. Final Report